National Centre for Social Research

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (WNTS) 2025-26: Adroddiad technegol

Awduron: Shane Howe, Nick Waugh, Zac Marco Perera, Anna Keyes a Mark Todd
Paratowyd ar gyfer: Trafnidiaeth Cymru

AWST 2026

Pŵer dealltwriaeth

Drwy ddeall yn iawn pa mor gymhleth yw bywydau pobl a beth yw eu barn am y materion sy'n effeithio arnynt, rydym yn rhoi rôl bwerus a dylanwadol i'r cyhoedd wrth lunio penderfyniadau a gwasanaethau a all wneud gwahaniaeth i bawb. Ac fel sefydliad annibynnol, nid-er-elw, rydyn ni'n gallu rhoi ein holl amser a'n hegni i gyflawni ymchwil gymdeithasol sy'n gweithio i gymdeithas.

Y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol
3Ydd Llawr Bloc 3
Tiller and Lock
250 City Road
Llundain, EC1V 2AB

020 7250 1866
www.natcen.ac.uk

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant wedi'i gofrestru yn Lloegr Rhif 4392418
Elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1091768) a'r Alban (SC038454)

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag ISO20252

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil annibynnol a gynhaliwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ar ran Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Oni nodir i'r gwrthwyneb, mae'r canfyddiadau, yr awgrymiadau a'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad wedi'u seilio ar y data a gasglwyd ar gyfer yr ymchwil yn ystod cyfnod penodol o amser, ac nid ydynt yn cynrychioli barn bersonol na phroffesiynol yr awdur(on) na barn swyddogol y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol. Nid yw'r awdur(on) na'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol yn derbyn cyfrifoldeb nac unrhyw atebolrwydd am sut y gallai unrhyw barti ar wahân i Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ddehongli na defnyddio'r canfyddiadau. Rydym yn cadw'r hawl i gyhoeddi cywiriad cyhoeddus am unrhyw gamddefnydd neu gamddehongliad o'r ymchwil a ddaw i'n sylw. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan ddeiliad yr hawlfraint i atgynhyrchu neu ddosbarthu'r adroddiad ac unrhyw un o'i ganfyddiadau, yn rhannol neu'n llawn, a chynnwys yr ymwadiad hwn.

Cynnwys

1.	**Cyflwyniad a chefndir**	**5**
1.1	Cefndir	5
1.2	Gwaith datblygu	6
1.3	Defnyddio data Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru	6
2.	**Dewis sampl**	**8**
2.1	Maint a strwythur y sampl	8
2.2	Dewis cyfeiriadau	8
2.3	Clystyru a dyrannu cyfeiriadau a ddewiswyd	9
2.4	Dewis unedau byw a/neu aelwydydd	10
2.5	Dewis unigolion	10
2.6	Cyfeiriadau anghymwys (diangen)	11
3.	**Gweithdrefnau gwaith maes**	**13**
3.1	Strwythur gwaith maes	13
3.2	Cysylltu ag ymatebwyr	13
3.3	Sesiynau briffio a hyfforddiant i gyfwelwyr	14
3.4	Dogfennau ategol y cyfwelydd	15
3.5	Tîm Ymholiadau Arolwg NatCen a Llinell Ymholiadau TrC	16
4.	**Adnodd yr arolwg a'r ymateb**	**18**
4.1	Adnodd yr arolwg	18
4.2	Yr holiadur	18
4.3	Y dyddiadur teithio	19
4.4	Cyfweliad CAWI	21
4.5	Y cyfweliad CAPI a CAPI-Ffôn	22
4.6	Gofynion o ran yr iaith Gymraeg	23
4.7	Cysylltu Data Dienw'n Ddiogel	24
4.8	Codio canlyniadau	24
4.9	Cymhelliant amodol	27
4.10	Cyfraddau ymateb	27
4.11	Rheoli ansawdd	28
5.	**Prosesu data**	**30**
5.1	Ffynonellau Data	30
5.2	Cysoni data	30
5.3	Glanhau a golygu data	31
5.4	Codio	32
5.5	Newidynnau deilliedig	33
5.6	Allbynnau data	34
6.	**Pwysoli**	**36**
6.1	Crynodeb o'r dull pwysoli	36
6.2	Pwysolion cyfweliadau	36
6.3	Pwysolion dyddiadur	38

7. Llyfryddiaeth **40**

Atodiadau **41**

1. Cyflwyniad a chefndir

1.1 Cefndir

Yn 2023, comisiynodd Trafnidiaeth Cymru (TrC) y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i weithio fel ei bartner cyflenwi i ddylunio methodoleg addas ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd Cymru (WNTS).

Arolwg ar y we yn gyntaf oedd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26 a luniwyd i fesur agweddau ac ymddygiad teithio ymysg trigolion Cymru. Gan ddechrau ar 10fed Mawrth 2025, roedd yr arolwg yn fyw am 58 wythnos i gwmpasu gwaith maes ar gyfer y flwyddyn gyfan. Roedd hyn yn cynnwys swp mis Mawrth a symudwyd i 2026 er mwyn gallu lansio'n gynnar. Daeth yr arolwg i ben ar 28ain Ebrill 2026. Casglwyd data gan ddefnyddio dull cymysg yn cyfuno Cyfweliadau ar y We gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAWI), Cyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAPI) a gynhaliwyd wyneb yn wyneb gan gyfwelwyr hyfforddedig, a Chyfweliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur a weinyddir dros y Ffôn (CAPI-Ffôn). Roedd y dull hwn yn helpu i sicrhau cwmpasu a hygyrchedd eang o ran y boblogaeth, gan sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl gan ymatebwyr.

Roedd y boblogaeth darged ar gyfer yr arolwg yn cynnwys oedolion 16 oed a hŷn sy'n byw ar aelwydydd preswyl preifat yng Nghymru. Casglwyd data ar lefel unigol, yn barhaus drwy gydol blwyddyn yr arolwg i gofnodi amrywiadau tymhorol o ran ymddygiad teithio.
Roedd tri phrif nod i Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru:

1. **Monitro newidiadau** mewn ymddygiad teithio ac asesu cynnydd yn erbyn targedau a mesurau polisi trafnidiaeth penodol.
2. **Darparu data o ansawdd uchel** i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth trafnidiaeth a chefnogi datblygiad parhaus modelau trafnidiaeth rhanbarthol yng Nghymru.
3. **Sefydlu strategaeth casglu data gadarn y gellir ei hailadrodd** sy'n cynyddu grym a rheolaeth dros y broses cynhyrchu data.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, roedd yr Arolwg yn cynnwys dwy elfen graidd:

1. **Holiadur yr Arolwg:** Atebodd ymatebwyr gwestiynau a oedd yn ymwneud â'u hagweddau, eu dewisiadau a'u profiadau teithio. Roedd y pynciau'n cynnwys pa mor aml roeddent yn defnyddio gwahanol ddulliau trafnidiaeth, bodlonrwydd â dulliau trafnidiaeth a beth fyddai'n eu hannog i ddechrau defnyddio dulliau trafnidiaeth neu eu defnyddio'n amlach.

2. **Dyddiadur Teithio:** Llenwodd ymatebwyr ddyddiadur teithio deuddydd, gan ddwyn i gof eu gweithgareddau teithio dyddiol dros y ddau ddiwrnod cyn llenwi'r arolwg. Roedd y dyddiadur yn cynnwys gwybodaeth fanwl am deithiau unigol a wnaed, gan gynnwys

lleoliadau cychwyn a chyrchfan, y dull(iau) trafnidiaeth a ddefnyddiwyd, a phwrpas y daith. Defnyddiodd y dyddiadur teithio Ryngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) mapio'r Arolwg Ordnans (OS) i gefnogi adrodd cywir.

1.2 Gwaith datblygu

Roedd arolwg Arolwg Teithio Cenedlaethol 2025-26 yn dilyn nifer o gamau datblygu yn unol â fframwaith REMoDEL NatCen i sefydlu methodoleg addas ar gyfer yr arolwg newydd hwn. Ar ôl cwblhau adolygiad o anghenion ymchwil a gwybodaeth, gwerthuso dyluniadau methodolegol, modelu pellach a dylunio holiadur a dulliau casglu data, aeth yr arolwg ymlaen i'r cam arbrofi.

Cynhaliwyd y cynllun peilot cyntaf rhwng 3ydd Mai a 2il Mehefin 2024. Yr amcanion oedd deall maint ac ansawdd y data a gynhyrchwyd gan ddyddiadur cofio teithio deuddydd, gwerthuso dulliau a oedd yn cystadlu â'i gilydd o ran dewis ymatebwyr a math a lleoliad y dyddiadur teithio yn yr arolwg. Dangosodd y cynllun peilot mai dim ond yn CAPI y gellid dewis ar hap o fewn aelwydydd yn llwyddiannus. Arweiniodd yr un dull at lai o gydymffurfio a mwy o faich ar ymatebwyr yn CAWI. O ganlyniad, mabwysiadodd y dyluniad terfynol hapddethol yn CAPI, gan ganiatáu i hyd at ddau aelod cymwys o'r aelwyd gymryd rhan yn CAWI. Cadarnhaodd y cynllun peilot hefyd effeithiolrwydd y dyluniad a ddewiswyd ar gyfer y dyddiadur a'i leoliad yn yr holiadur.

Cwblhawyd ail gynllun peilot rhwng 9fed Medi a 27ain Hydref 2024. Roedd y cam hwn yn canolbwyntio ar brofi proses yr arolwg o un pen i'r llall, gan gynnwys taith yr ymatebydd drwy'r cynnig o ddulliau cwblhau dilyniannol, systemau mewnol ar gyfer trosglwyddo achosion sampl rhwng dulliau casglu data, a'r gofynion prosesu data cysylltiedig. Amlygodd y canfyddiadau sut y gellid gwneud gwelliannau ac addasiadau i'r fframwaith prosesu data (h.y. y protocol data) cyn pwysoli a darparu data terfynol, gan helpu i sicrhau cadernid ac ansawdd allbynnau'r arolwg.

Mae manylion llawn yr ymchwil, y broses ddatblygu, yr ystyriaethau a'r rhesymeg dros ddyluniad terfynol yr arolwg wedi cael eu cyhoeddi[1], ochr yn ochr â'r prosesau profi a'r canfyddiadau[2].

1.3 Defnyddio data Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Yr Arolwg yw un o brif ffynonellau data Llywodraeth Cymru a TrC sy'n ymwneud ag agweddau ac ymddygiad teithio yng Nghymru. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth

[1] "Datblygu arolwg ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru", Trafnidiaeth Cymru, cyrchwyd Awst 25, 2026, https://tfw.wales/projects/wales-national-travel-survey/research-and-development/survey-development.
[2] "Profi Cynllun Peilot Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru," Trafnidiaeth Cymru, cyrchwyd Awst 25, 2026, https://tfw.wales/projects/wales-national-travel-survey/research-and-development/pilot-testing.

Drafnidiaeth newydd i Gymru, Llwybr Newydd[3], sy'n nodi'r nodau a'r uchelgeisiau i siapio'r system drafnidiaeth dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae Llwybr Newydd hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu arolwg teithio cenedlaethol newydd. Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn rhan annatod o'r fframwaith monitro ar gyfer y strategaeth hon[4].

Bydd data a gynhyrchir drwy Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a TrC i sefydlu data sylfaenol ar gyfer targedau a mesurau a fydd yn eu galluogi i fonitro newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad teithio dros amser. Rhagwelir hefyd y bydd cyrff cyhoeddus eraill, elusennau, melinau trafod, sefydliadau addysgol, a'r boblogaeth ehangach yn elwa o'r data ac yn ymgysylltu ag ef ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio prif nodweddion technegol Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26. Mae pob pennod o'r adroddiad yn ymdrin ag agwedd benodol ar yr arolwg:

- **Pennod 2: Dewis sampl**
  - Yn disgrifio'r gweithdrefnau o ran dylunio a dewis samplau.
- **Pennod 3: Gweithdrefnau gwaith maes**
  - Yn amlinellu'r dull casglu data, gan gynnwys dulliau arolygu, strategaethau ymateb i gysylltiadau a rheoli gwaith maes.
- **Pennod 4: Adnodd ac ymateb i'r arolwg**
  - Manylion dyluniad yr holiadur a'r dyddiadur teithio a'r cyfraddau ymateb.
- **Pennod 5: Prosesu data**
  - Yn amlinellu gweithdrefnau a ddefnyddir i ddilysu, glanhau, golygu a pharatoi data ar gyfer pwysoli a dadansoddi.
- **Pennod 6: Pwysoli**
  - Manylion y fethodoleg bwysoli a ddefnyddir i addasu'r data crai ar gyfer gweithdrefnau samplu, tebygolrwydd dewis a diffyg ymateb gwahaniaethol.

Gyda'i gilydd, mae'r penodau hyn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r prosesau dylunio, gweithredu ac addasu data a gynhyrchodd ddata Arolwg Teithio Cenedlaethol 2025-26.

[3] "Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021", Llywodraeth Cymru, cyrchwyd Awst 25, 2026, /https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021.
[4] "Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro", Trafnidiaeth Cymru, cyrchwyd Awst 25, 2026, https://tfw.wales/projects/monitoring-and-evaluation/wales-transport-strategy/monitoring-measures.

2. Dewis sampl

2.1 Maint a strwythur y sampl

Bwriad Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26 oedd sicrhau sampl gynrychioliadol o oedolion Cymru. Dewiswyd aelwydydd gan ddefnyddio dull samplu ar hap wedi'i haenu a heb ei glystyru. Ar aelwydydd cymwys, gallai hyd at ddau oedolyn gymryd rhan drwy CAWI, gallai un oedolyn a ddewiswyd ar hap gymryd rhan drwy CAPI, neu gallai un oedolyn a ddewisodd ei hun neu a ddewiswyd ar hap gymryd rhan drwy CAPI-Ffôn.

Y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) gydag Estyniad Preswylfeydd Lluosog (a reolir gan y Post Brenhinol) oedd y ffrâm samplu. Mae'r ffeil gyfeiriadau hon wedi'i chynllunio i sicrhau bod anheddau lluosog sy'n rhannu drws ffrynt yn cael eu rhestru fel cyfeiriadau ar wahân.

Tynnwyd 17,900 o gyfeiriadau yng Nghymru o'r ffrâm samplu, gyda dim ond 14,900 yn cael eu dyrannu ar gyfer gwaith maes 2025-26. Roedd y 3,000 arall yn cael eu cadw wrth gefn i'w defnyddio mewn sefyllfa lle'r oedd yr ymateb yn is na'r disgwyl.

2.2 Dewis cyfeiriadau

Tynnwyd samplau craidd ac wrth gefn ar wahân i reoli ansicrwydd o ran cyfraddau ymateb wrth reoli costau gwaith maes. Dan y dull hwn, dim ond y sampl craidd a ddyrannwyd ymlaen llaw, gyda'r sampl wrth gefn yn cael ei dal yn ôl i'w rhyddhau dim ond os oedd cyfraddau ymateb cyffredinol a chyfraddau ymateb yr is-grwpiau targed yn is na'r disgwyl.

Haenwyd y sampl yn bennaf yn ôl pedwar rhanbarth Cymru, gan adlewyrchu daearyddiaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig, er mwyn hwyluso cymariaethau rhwng rhanbarthau. Cafodd y rhanbarth â'r gyfran leiaf o gyfanswm poblogaeth oedolion, sef Canolbarth Cymru, ei orsamplu gyda'r nod o sicrhau sampl effeithiol flynyddol o 400 yn y rhanbarth hwnnw. Mae maint effeithiol yr is-sampl, sef 400, yn darparu digon o fanylder ar gyfer gofynion dadansoddi craidd, gan barhau i fod yn gost-effeithiol. Ar ôl i'r 17,900 o gyfeiriadau gael eu samplu, dewiswyd 14,900 ar hap fel y prif sampl, gan gadw dyluniad y sampl haenedig yn y prif sampl a'r sampl wrth gefn. Dangosir dosbarthiad y sampl yn ôl rhanbarth yn Nhabl 1.

Tabl 1. Cyfran y sampl a gyhoeddwyd yn ôl rhanbarth.

Rhanbarth	Prif gyfeiriadau sampl	Cyfeiriadau sampl wrth gefn	Cyfran o gyfanswm y sampl
Gogledd Cymru	3,175	639	21.3%
Canolbarth Cymru	1,475	298	9.9%
De-orllewin Cymru	3,225	649	21.6%
De-ddwyrain Cymru	7,025	1,414	47.1%
Cyfanswm	14,900	3,000	100.0%

Ym mhob haen rhanbarth, defnyddiwyd haeniad pellach drwy ddidoli'r PAF yn ôl Awdurdod Lleol wedi'i groesi gan gategoreiddio gwledig-trefol Cyfrifiad 2021, cyfran ar lefel ardal Cyfrifiad 2021 o aelwydydd â mynediad at o leiaf un car neu fan, a chod post cyn dewis sampl. Dewiswyd y newidynnau haenu hyn gan y gwyddys eu bod yn gysylltiedig ag ymddygiad teithio ac maent yn gyson â'r dulliau haenu samplau a ddefnyddir ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Lloegr[5].

Ni chafodd y sampl wrth gefn ei rhyddhau ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26. Y rheswm am hyn oedd bod data o ddau chwarter cyntaf y gwaith maes yn dangos bod cyfraddau ymateb ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o ran nifer y cyfweliadau yn gyffredinol ac ar lefel ranbarthol. Roedd nifer y teithiau a gofnodwyd drwy'r dyddiadur teithio yn gyson â'r disgwyliadau, ac roedd effeithiau pwysolion canol blwyddyn ar y dyluniad o fewn terfynau derbyniol.

2.3 Clystyru a dyrannu cyfeiriadau a ddewiswyd

Cafodd y sampl ar lefel aelwydydd ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ei llunio heb glystyru, cyn i'r cyfeiriadau a ddewiswyd gael eu clystyru'n algorithmig i mewn i aseiniadau agos at ei gilydd yn ddaearyddol. Cynhyrchwyd yr aseiniadau i gynnwys nifer cymedrig o 25 cyfeiriad, yn amrywio o 9 i 29 o gyfeiriadau. Cynlluniwyd yr aseiniadau hyn i hwyluso ymweliadau CAPI dilynol effeithlon â chyfeiriadau na chwblhaodd yr arolwg yn ystod y cam CAWI cychwynnol. Er y gallai ymatebwyr ofyn am gyfweliad dros y ffôn drwy CAPI-Ffôn yn ystod y cyfnod hwn, ni chynhaliwyd cyfweliadau o'r fath nes i waith maes CAPI ddechrau.

Dim ond mewn lleoliadau gwledig â dwysedd poblogaeth isel yr oedd angen aseiniadau llai, sy'n golygu mai dim ond 1% o'r sampl oedd wedi'i glystyru'n aseiniadau o 15 cyfeiriad neu lai. Roedd y prif sampl yn cynnwys 609 o aseiniadau a'r sampl wrth gefn o 123 o aseiniadau.

Dyrannwyd y prif aseiniadau sampl ar hap i chwarteri ac yna i fisoedd y flwyddyn. Roedd y nifer a ddyrannwyd bob mis yn gymesur â nifer y diwrnodau yn y mis. Er enghraifft, dyrannwyd 47 o aseiniadau prif sampl i fis Chwefror a dyrannwyd 53 i fis Rhagfyr. Roedd hyn er mwyn lledaenu'r sampl mor gyfartal â phosibl ar draws y flwyddyn galendr, er mwyn mesur natur dymhorol ymddygiad teithio yn y ffordd orau. Ym mhob mis, neilltuwyd aseiniadau ar hap i bedwar swp o'r un maint.

Ystyriwyd amrywiad yn nifer y cyfeiriadau fesul aseiniad drwy gydol y broses ddyrannu. Roedd rhannu aseiniadau i'r prif samplau a'r samplau wrth gefn yn defnyddio samplu ar hap gyda thebygolrwydd cymesur â nifer y cyfeiriadau yn yr aseiniad. Gwiriwyd dyraniad ar hap dilynol aseiniadau i fisoedd a sypiau i gadarnhau dosbarthiad cyfartal yn ôl nifer y cyfeiriadau a nifer yr aseiniadau. Roedd dyrannu ar hap i chwarteri, misoedd a sypiau ar ôl trefnu'r aseiniadau yn

[5] "National Travel Survey 2024: Technical report", Department for Transport, accessed August 25, 2026, https://www.gov.uk/government/statistics/national-travel-survey-2024-technical-report.

ôl newidynnau haenu'r sampl yn sicrhau bod pob chwarter o ymatebion Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cadw'r un haenu, gan gynnwys gorsamplu yn ôl rhanbarth.

2.4 Dewis unedau byw a/neu aelwydydd

Mae'n bosibl y bydd cyfeiriad a ddewisir ar hap yn cynnwys unedau byw lluosog neu fwy nag un aelwyd o bobl. Er mwyn sicrhau dewis ar hap, roedd angen sicrhau bod pob un o'r elfennau hyn hefyd yn cael eu dewis ar hap ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

At ddibenion dewis ar hap, dilynwyd diffiniadau confensiynol o unedau byw ac aelwydydd. Diffiniwyd uned fyw fel lle byw sydd â'i ddrws ffrynt ei hun. Diffiniwyd aelwyd fel man lle mae un person neu grŵp o bobl (1) mewn uned fyw yn defnyddio'r llety fel eu hunig neu eu prif breswylfa, (2) yn rhannu cyfleusterau coginio, a (3) yn rhannu ystafell fyw, man eistedd neu fan bwyta.

Nid oedd yn bosibl gorfodi dewis yr elfennau hyn ar hap yn ystod gwaith maes CAWI. Nid yw gwybodaeth ynghylch a oes gan gyfeiriadau unigol unedau byw neu aelwydydd lluosog ar gael yn rhwydd (h.y. ar gyfer creu sampl) a, phe bai, byddai sicrhau bod y llythyr gwahoddiad yn cyrraedd yr uned fyw neu'r aelwyd gywir yn her logistaidd. Felly, dim ond gweithwyr maes CAPI allai orfodi dewis unedau byw ac aelwydydd ar hap pan fyddent yn ymweld â chyfeiriadau. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau (99.995%[6]), dim ond un uned fyw ac un aelwyd oedd yn y cyfeiriad a samplwyd.

Fodd bynnag, pan ddaethpwyd ar draws unedau byw neu aelwydydd lluosog, dilynwyd gweithdrefnau llym i sicrhau eu bod yn cael eu dewis ar hap. Pe bai cyfwelwyr yn darganfod bod unedau byw lluosog mewn cyfeiriad a oedd yn cael ei samplu, byddent yn cofnodi pob uned fyw yn eu system rheoli achosion, a fyddai'n dewis un ar hap ar eu cyfer. Yn yr un modd, pe bai cyfwelwyr yn darganfod bod nifer o aelwydydd mewn uned fyw a ddewiswyd, byddent yn ailadrodd y weithdrefn hon: rhoi dynodwr ar gyfer pob aelwyd yn eu system rheoli achosion a'i chael i ddewis un ar hap ar eu cyfer.

Mae gan aelwydydd sy'n byw mewn cyfeiriadau sampl gydag unedau byw a/neu aelwydydd lluosog lai o siawns o gael eu dewis nag aelwydydd eraill. Er mai cymharol ychydig oedd o gyfeiriadau o'r math hwn, roedd cyfrif ystadegol amdanynt o hyd. Roedd pwysoli yn cyfrif am dangynrychiolaeth aelwydydd mewn cyfeiriadau ag unedau byw neu aelwydydd lluosog (gweler Pennod 6. Pwysoli).

2.5 Dewis unigolion

[6] O'r holl gyfeiriadau cymwys, a gafodd ymweliad gan gyfwelydd.. Dim ond 15 o'r cyfeiriadau a samplwyd oedd yn cynnwys mwy nag un uned fyw neu fwy nag un aelwyd.

Mewn aelwydydd a samplwyd, nid oedd pob unigolyn yn gymwys i gymryd rhan. Roedd y weithdrefn a oedd yn pennu pa unigolyn/unigolion a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn amrywio rhwng y dulliau CAWI, CAPI a CAPI-Ffôn.

Wrth gwblhau Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru drwy CAWI, roedd unrhyw ddau oedolyn a oedd yn byw yn y cyfeiriad a samplwyd yn gymwys i gymryd rhan. Ni chafodd unigolion eu dewis ar hap, a gallai unrhyw ddau oedolyn ar yr aelwyd gymryd rhan. Penderfynwyd peidio â defnyddio dewis ar hap ar gyfer CAWI ar ôl astudiaeth beilot gyntaf Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Canfu hon nad oedd y dull dewis ar hap a ddefnyddiwyd yn cynhyrchu sampl mwy na mwy cynrychioladol o'i gymharu â'r dull "unrhyw ddau oedolyn", sy'n caniatáu i unrhyw ddau ymatebydd cymwys gymryd rhan.

Os yn cwblhau Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru drwy CAPI, dewiswyd unigolion ar hap a dim ond un oedolyn a samplwyd ar hap a oedd yn byw ar yr aelwyd a wahoddwyd i gymryd rhan. I ddewis unigolyn ar hap i gymryd rhan, roedd y cyfwelydd yn rhoi dynodwr ar gyfer pob aelod cymwys o'r aelwyd yn ei system rheoli achosion, a oedd yn dewis unigolyn ar hap ar ei gyfer. Rhoddwyd gwybod yn bendant i'r cyfwelwyr mai dim ond yr unigolyn a ddewiswyd ar hap a allai wedyn gymryd rhan yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru drwy CAPI. Os nad oedd yr oedolyn a samplwyd yn bresennol yn yr eiddo ar yr adeg y gwnaed y dewis ar hap, cyfarwyddwyd y cyfwelydd i geisio trefnu i'r oedolyn a samplwyd gymryd rhan, dychwelyd i'r eiddo ar amser y cytunwyd arno neu alw yn ôl ar wahanol oriau a dyddiau.

Cynigiwyd CAPI-Ffôn fel modd o optio i mewn a gallai gael ei gwblhau gan un ymatebydd o oedolyn yn unig. Yn ystod y cyfnod cychwynnol o dair wythnos o waith maes CAWI yn unig, gallai aelodau'r aelwyd ddefnyddio'r rhif a oedd yn cael ei ddarparu mewn llythyrau atgoffa i drefnu cyfweliad dros y ffôn, gydag unrhyw oedolyn yn gymwys i gymryd rhan. Yn ystod rhan wyneb yn wyneb y gwaith maes, nid ydym yn cymryd yn ganiataol y glynwyd at y dewis ond mae'n bosibl mai'r oedolyn a ddewiswyd ar hap gan y cyfwelydd yw'r un i gymryd rhan drwy CAPI-Ffôn, bydd hyn yn dibynnu ar ryngweithio â chyfwelydd ac ar ba bwynt y mae'r ymatebydd wedi gofyn am gyfweliad dros y ffôn.

Mae'r rheolau hyn ynghylch dewis yn golygu bod unigolion sy'n byw mewn aelwydydd mwy yn llai tebygol o gael eu dewis i gymryd rhan. Addaswyd hyn wrth bwysoli'r ymatebion (gweler adran 6).

2.6 Cyfeiriadau anghymwys (diangen)

Weithiau roedd cyfeiriadau a samplwyd yn anaddas ar gyfer sampl yr arolwg ac yn cael eu barnu'n anghymwys. Cafodd y mathau canlynol o gyfeiriadau eu dosbarthu fel rhai anghymwys:

- Tai heb eu hadeiladu eto neu sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

- Adeiladau wedi'u dymchwel neu adeiladau adfeiliedig lle mae'r cyfeiriad wedi "diflannu" pan gyfunwyd 2 gyfeiriad yn un.
- Unedau tai y gwyddys nad ydynt yn cynnwys unrhyw aelwyd breswyl ar ddyddiad yr ymgais gyntaf i gysylltu (h.y. mae'n wag).
- Cyfeiriad a ddefnyddir yn unig gan fusnes, ysgol, swyddfa'r llywodraeth neu sefydliad arall heb unrhyw bersonau preswyl.
- Llety preswyl nad yw'n cael ei ddefnyddio fel prif breswylfa unrhyw un o'r preswylwyr.
- Cyfeiriad sydd wedi'i wahardd - mae cyfwelwyr eisoes wedi tynnu sylw nad yw'n ddiogel ymweld â chyfeiriad sydd wedi'i wahardd.

3. Gweithdrefnau gwaith maes

3.1 Strwythur gwaith maes

I gyfrif am amrywiadau tymhorol mewn ymddygiad teithio, cafodd y gwaith maes ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ei rannu'n gyfartal ar draws y flwyddyn. Cyflawnwyd hyn drwy rannu'r sampl yn 48 swp a dyrannu pedwar swp i wahanol wythnosau ym mhob mis; aeth oddeutu un swp yn fyw bob wythnos. Ar ôl i swp fynd yn fyw, roedd yn aros felly am wyth wythnos.

Yn ystod tair wythnos gyntaf y gwaith maes, gallai ymatebwyr lenwi'r arolwg drwy CAWI neu drefnu cyfweliad CAPI-Ffôn. Ar ôl tair wythnos, lansiwyd y dull CAPI. Roedd y dull CAPI yn gweithredu ar yr un pryd â'r dull CAWI am bum wythnos; yn ystod y cyfnod hwn, gallai ymatebwyr hefyd gwblhau'r arolwg drwy CAPI-Ffôn.

3.2 Cysylltu ag ymatebwyr

Defnyddiodd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ddau ddull dilyniannol o gysylltu i gyrraedd preswylwyr mewn cyfeiriadau a samplwyd, a oedd yn cynnwys dull post cychwynnol ac yna ymweliad gan gyfwelydd ar gyfer aelwydydd nad oeddent yn ymateb. Cynhyrchwyd yr holl ddeunyddiau ar gyfer yr ymatebwyr yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg ac fe'u darparwyd ar yr un pryd.

Drwy'r dull post, anfonwyd dau neu dri llythyr i'r holl gyfeiriadau samplu a ddewiswyd ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Dechreuodd y cyswllt gyda llythyr gwahoddiad, a anfonwyd ar ddechrau cyfnod y gwaith maes ac fe'i dilynwyd gan lythyr atgoffa tua wythnos yn ddiweddarach. Anfonwyd yr ail lythyr atgoffa, a'r llythyr atgoffa terfynol, at unrhyw ymatebwyr nad oeddent wedi cwblhau'r arolwg ar-lein o fewn y pythefnos cyntaf. Roedd y llythyrau hyn yn egluro pwrpas yr astudiaeth, sut roedd y cyfeiriad wedi cael ei ddewis a sut i gymryd rhan, ac yn darparu dolen URL, cod QR a dau god mynediad unigryw ar gyfer cymryd rhan ar-lein.

Roedd pob llythyr yn cynnwys dogfen cwestiynau cyffredin a oedd yn mynd i'r afael â chwestiynau cyffredin am gyfranogiad a chyfrinachedd data. Roedd y ddau lythyr atgoffa hefyd yn rhoi gwybod i dderbynyddion am y cyfle i gymryd rhan drwy ddull arall. Roedd y ddau lythyr atgoffa yn rhoi gwybod i'r ymatebwyr y gallent drefnu cyfweliad dros y ffôn gan roi rhif ffôn iddynt gysylltu ag ef i wneud hynny. Roedd yr ail lythyr atgoffa hefyd yn hysbysu'r derbynwyr y byddai cyfwelydd yn ymweld â'u cyfeiriad maes o law i'w galluogi i gymryd rhan drwy gyfweliad wyneb yn wyneb. Mae'r tri llythyr a'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin i'w gweld yn atodiadau A i D.

Oddeutu wythnos ar ôl anfon yr ail lythyr atgoffa, dechreuodd gwaith maes CAPI; roedd hyn yn caniatáu wythnos i aelwydydd optio allan o ymweliad cyfwelydd. Dyrannwyd i gyfwelwyr bob

cyfeiriad o fewn aseiniad nad oedd eisoes wedi cymryd rhan neu wedi optio allan. Cawsant gyfarwyddyd i ymweld â phob cyfeiriad cyn gynted â phosibl, i annog rhywun yn byw yno i gymryd rhan, ac i wneud o leiaf chwe ymgais i gysylltu â'r atebydd drwy ymweld â'r cyfeiriad cyn gadael y llythyr diffyg cyswllt (mae'r manylion yn adran 3.3).

Ar ôl eu dyrannu, rhoddwyd gwybod i'r cyfwelwyr am unrhyw un a oedd wedi gofyn am gyfweliad dros y ffôn, cyfweliad wyneb yn wyneb neu apwyntiad. Roeddent yn cael neges destun a oedd yn cadarnhau manylion yr achos a natur y cais. Roeddent yn cael hysbysiad tebyg hefyd, yn ystod gwaith maes CAPI, pan oedd rhywun mewn cyfeiriad a ddyrannwyd yn cwblhau'r arolwg ar-lein neu'n penderfynu optio allan. Roedd y neges destun yr oeddent yn ei derbyn yn cadarnhau manylion yr achos, yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer cau'r achos yn y meddalwedd rheoli achosion, ac yn gofyn iddynt beidio ag ymweld â'r cyfeiriad.

3.3 Sesiynau briffio a hyfforddiant i gyfwelwyr

Cafodd cyfwelwyr NatCen hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio ar natur CAPI ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn a gweithdai ar dechnegau recriwtio ar garreg y drws. Roedd yr hyfforddiant yn darparu'r modd i gyfwelwyr fynd i gyfeiriadau preswyl yn gymwys ac annog unigolion mewn aelwydydd i gymryd rhan mewn arolygon cymdeithasol. Roedd hefyd yn rhoi gwybodaeth gefndir am NatCen a phwyntiau cyswllt priodol os oeddent yn wynebu heriau yn y maes. Er enghraifft, os oedd angen deunyddiau gwaith maes ychwanegol arnynt neu os nad oeddent yn gallu dod o hyd i gyfeiriad. Ar ôl hyn, goruchwyliwyd cyfwelwyr yn ystod eu lansiad cychwynnol ar brosiect a chafwyd monitro parhaus i sicrhau y glynwyd wrth safonau ansawdd data.

Cyn dechrau ar y gwaith maes, roedd yn ofynnol i gyfwelwyr wyneb yn wyneb fynd i sesiwn briffio Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (WTNS). Cafodd y sesiynau briffio eu cynllunio i roi'r wybodaeth allweddol a oedd ei hangen ar gyfwelwyr i gasglu data'n llwyddiannus ar gyfer WTNS, trafod yn hyderus bwysigrwydd WTNS gydag ymatebwyr a gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y prosiect, TrC a Llywodraeth Cymru.

Roedd y sesiynau briffio'n darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Cefndir yr arolwg, ei nodau a'i amcanion
- Sut bydd TrC a Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data
- Y dilyniant gwaith maes
- Darbwyllo pobl i gymryd rhan
- Gweithdrefnau dewis ar hap
- Cynnal yr arolwg
- Defnyddio'r Map OS a oedd wedi'i fewnosod
- Cysylltu â'r rhyngrwyd a datrys problemau
- Gweithdrefnau gweinyddol (e.e. rhoi cymhellion i ymatebwyr)

Ar ddechrau blwyddyn yr arolwg, cyflwynwyd sesiynau briffio diwrnod llawn wyneb yn wyneb i grwpiau o oddeutu 10 i 20 o gyfwelwyr. Roedd cynrychiolwyr o TrC a Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y sesiynau hyn i dynnu sylw at bwysigrwydd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd dau gyfarfod briffio wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd ac un yng Nghaer; dyma'r lleoliadau a oedd yn hygyrch i'r rhan fwyaf o gyfwelwyr.

Drwy gydol y flwyddyn, wrth i ofynion briffio ddod yn ad-hoc, darparwyd sesiynau briffio ar-lein i grwpiau llai o gyfwelwyr a gafodd eu recriwtio i ymuno â'r prosiect yn ystod y flwyddyn gwaith maes. Roedd sesiynau briffio ar-lein yn para hanner diwrnod ac fel arfer roeddent yn cael eu cyflwyno i lai na phum cyfwelydd. Roedd y rhain yn fyrrach wrth i elfennau rhyngweithiol y briff, a gynlluniwyd i gael eu cyflwyno wyneb yn wyneb, gael eu dileu.

3.4 Dogfennau ategol y cyfwelydd

Derbyniodd y cyfwelwyr gasgliad o ddogfennau i'w cynorthwyo yn y maes. Roedd y rhain yn cynnwys deunyddiau a gynlluniwyd i helpu i gasglu data, annog ymatebwyr i lenwi'r arolwg ar-lein, a darparu canllawiau a nodiadau atgoffa drwy gydol y gwaith maes.

Mae'r rhestr lawn o ddogfennau a ddarparwyd i gyfwelwyr i'w gweld isod a cheir enghreifftiau yn atodiadau E i M yn y drefn honno. Roedd yr holl ddogfennau o faint A4 oni nodir yn wahanol.

- **Cyfarwyddiadau i gyfwelwyr**: Dogfen ysgrifenedig yn cynnwys yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod y sesiwn friffio.

- **Copïau o'r ail lythyr atgoffa**: Fersiwn o'r ail lythyr atgoffa heb unrhyw wybodaeth benodol am y sampl. Defnyddiodd y cyfwelwyr y llythyrau hyn i helpu i egluro pam eu bod ar garreg y drws a gallent adael un gyda rhywun i'w hatgoffa o'u hymweliad.

- **Cerdyn cod mynediad**: Cerdyn A5 a oedd yn cael ei ddefnyddio gan gyfwelwyr i gofnodi trydydd cod mynediad ar gyfer ymatebwyr a oedd yn dymuno cymryd rhan ar-lein ond nad oedd eu codau mynediad gwreiddiol ganddynt o ohebiaeth gynharach. Roedd y cerdyn cod mynediad yn ddwyochrog gyda'r Saesneg ar un ochr a'r Gymraeg ar yr ochr arall.

- **Llythyr diffyg cyswllt**: Llythyr yn annog pobl yn y cyfeiriad i gymryd rhan ar-lein ar ôl i gyfwelydd wneud sawl ymweliad â'r eiddo a methu â chysylltu â nhw. Roedd y llythyr yn eu hannog i gymryd rhan ar-lein ac roedd gan gyfwelwyr le i ysgrifennu eu manylion, pan oeddent yn ymweld a thrydydd cod mynediad. Roedd y llythyr diffyg cyswllt yn ddwyochrog gyda'r Saesneg ar un ochr a'r Gymraeg ar yr ochr arall.

- **Cerdyn arddangos "Rwy'n siarad"**: Dogfen amlieithog yn egluro Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru a pham fod y cyfwelydd yn ymweld. Roedd hwn i'w ddefnyddio pan nad oedd aelod o'r cyhoedd yn siarad Saesneg. Roedd y disgrifiad o'r arolwg wedi'i

ysgrifennu mewn Arabeg, Bengaleg, Cantoneg, Pwyleg, Rwmaneg a Chymraeg – y prif ieithoedd a ddefnyddir yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad 2021 y tu hwnt i'r Saesneg.

- **Cardiau arddangos**: Set o gardiau i'w dangos i ymatebwyr pan oedd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau a oedd ag opsiynau ymateb hir, ailadroddus, cymhleth neu bersonol. Roedd y cardiau'n dangos yr opsiynau ymateb posibl mewn print bras ar draws y dudalen gyfan. Cynhyrchwyd y cardiau arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- **Canllawiau i'r dyddiadur teithio**: Dogfen ganllaw yn atgoffa cyfwelwyr o'r diffiniadau a'r disgrifiadau allweddol i'w defnyddio wrth gasglu data o'r dyddiadur teithio. Cynhyrchwyd y canllaw yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- **Dyddiadur papur wrth gefn**: Dogfen casglu data i'w defnyddio pan oedd cyfwelwyr yn cael trafferth cael gafael ar yr API Map OS neu ei ddefnyddio. Dyluniwyd y dyddiadur papur i gofnodi'r un wybodaeth am deithiau â'r dyddiadur ar-lein ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfwelwyr fewnbynnu'r wybodaeth a gasglwyd yn y dyddiadur ar-lein perthnasol, unwaith yr oeddent yn rhywle gyda chysylltiad sefydlog â'r rhyngrwyd. Cynhyrchwyd y dyddiadur papur wrth gefn hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- **Taflen wybodaeth SAIL a siart llif cysylltu data**: Taflen wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am elfen Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yr arolwg (gweler 4.7). Roedd yn egluro pwrpas casglu data personol ychwanegol, data arall a gedwir y gellid cysylltu eu data ag ef, sut y byddai'r data'n cael ei ddefnyddio a'r sefydliadau dan sylw. Cynhyrchwyd y taflenni gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.5 Tîm Ymholiadau Arolwg NatCen a Llinell Ymholiadau TrC

Cafodd y rhai a wahoddwyd i gymryd rhan yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru eu cyfarwyddo i gysylltu â Thîm Ymholiadau Arolwg NatCen (SET) os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu gwynion. Gallent gysylltu â SET NatCen gan ddefnyddio rhif ffôn rhad ac am ddim neu gyfeiriad e-bost; roedd y rhain i'w gweld ar bob deunydd ar gyfer ymatebwyr. Ar ôl cysylltu, gallai'r unigolyn ddewis ym mha iaith yr oedd yn dymuno cyfathrebu (Cymraeg neu Saesneg). Roedd y rhai a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu cyfeirio at linell ymholiadau TrC. Roedd trefniadau ar waith i SET NatCen a llinell ymholiadau TrC drosglwyddo manylion yr ymatebydd i'w gilydd yn ddiogel.

Er mwyn paratoi llinell ymholiadau SET Nat Cen a TrC ar gyfer delio ag ymholiadau'r Arolwg, cafodd y ddau dîm wybodaeth allweddol am yr arolwg a'r broses ar gyfer cyfnewid gwybodaeth. Roedd hyn yn caniatáu i linell ymholiadau TrC ddelio â rhai materion yn y ffynhonnell, heb eu cyfeirio at SET NatCen, ac yn rhoi'r adnoddau i'r ddau dîm drosglwyddo ceisiadau rhwng ei gilydd, pe ymholiad yn golygu bod angen sylw'r tîm arall.

Roedd yn ofynnol i SET NatCen ddelio â rhai ymholiadau gan nad oedd gan linell ymholiadau TrC fynediad at wybodaeth samplu ac arolwg ac nid oedd yn gallu cysylltu â chyfwelwyr. Roedd yr ymholiadau hyn yn cynnwys ceisiadau am gyfweliadau, ymholiadau am fynediad at yr arolwg ac ymholiadau am gymhellion. I hwyluso hyn, rhoddwyd mynediad i SET NatCen at y sampl a gwybodaeth am gymhellion. Yn ogystal, rhoddwyd deunyddiau ategol iddynt: taflen wybodaeth am y prosiect yn ymdrin â'r un deunydd â'r sesiynau briffio a chopïau o'r gwahoddiad a'r llythyrau atgoffa, taflen Cwestiynau Cyffredin, a deunyddiau i'r cyfwelydd gyfeirio atynt.

Roedd mathau nodweddiadol o gyswllt ag ymatebwyr yn ymwneud â chymorth i gael mynediad at a llenwi'r arolwg ar-lein, trefnu neu aildrefnu ymweliad gan gyfwelydd, cadarnhau dilysrwydd yr arolwg neu'r sefydliadau dan sylw, a dod o hyd i'r cymhelliant a gawsant am gymryd rhan a'i ddefnyddio.

4. Adnodd yr arolwg a'r ymateb

4.1 Adnodd yr arolwg

Datblygwyd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn Blaise 5, llwyfan meddalwedd arolwg a ddatblygwyd ac a reolwyd gan Statistics Netherlands. Roedd yn cynnwys dwy elfen – holiadur a dyddiadur teithio deuddydd – a oedd yn mesur agweddau ymatebwyr at wahanol ddulliau trafnidiaeth a phynciau eraill yn ymwneud â thrafnidiaeth a'u hymddygiad teithio. Datblygwyd elfennau damcaniaethol (h.y. geiriad cwestiwn) ac ymarferol (h.y. gweithdrefn gwaith maes) yr arolwg drwy ymchwil dylunio cychwynnol, profion gwybyddol a defnyddioldeb, a dau gynllun peilot [78]. Cymerodd yr arolwg oddeutu 30 i 40 munud i'r ymatebwyr ei lenwi.

4.2 Yr holiadur

Roedd holiadur Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cynnwys blociau o gwestiynau, pob un yn ymdrin â phwnc penodol. Mae Tabl 2 yn disgrifio pob bloc a'u trefn yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Tabl 2. Blociau cwestiynau dilynol yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Bloc cwestiynau	Disgrifiad
Oedran	Cwestiynau am oedran, sgrinio unrhyw ymatebwyr dan 16 oed allan.
Yr iaith Gymraeg	Cwestiwn yn gofyn a yw ymatebwyr yn siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg
Sŵn niwsans	Cwestiynau'n gofyn i ymatebwyr am sŵn y gallent ei brofi o'r tu allan i'w cartref.
Amlder teithio	Cwestiynau'n gofyn i ymatebwyr pa mor aml maent yn defnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth.
Cerdded ac olwyno	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am gerdded ac olwyno.
Beicio	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am feicio.
Cludiant cymunedol	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am drafnidiaeth gymunedol.
Bysiau	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am deithio ar fws.
Trenau	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am feicio.

[8] Trafnidiaeth Cymru, *Datblygu Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru*, cyrchwyd Awst 25, 2026, https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru/ymchwil-a-datblygu/datblygur-arolwg.

Tacsi	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am ddefnyddio tacsis.
Car	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am ddefnyddio car.
Awyren	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am deithiau awyr.
Fferi neu gwch	Cwestiynau sy'n mynd ar drywydd cynnwys y bloc amlder teithio, gan holi am deithio ar y môr.
Gwirio cod post	Cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr gadarnhau eu cod post, cadarnhau bod y cyfeiriad cartref yn gywir yn y dyddiadur ac nad oes unrhyw actorion twyllodrus yn llenwi'r arolwg.
Dyddiadur teithio	Cyfres o gwestiynau yn gofyn i ymatebwyr gofnodi eu teithiau dros y 2 ddiwrnod diwethaf. Gweler adran 4.3 am ragor o wybodaeth.
Cyflogaeth	Cwestiynau am statws cyflogaeth.
Nam neu gyflyrau iechyd a hygyrchedd	Cwestiynau am unrhyw gyflyrau iechyd, salwch neu nam, ac a oeddent yn lleihau gallu'r ymatebydd i gyflawni e weithgareddau o ddydd i ddydd.
Cerdyn teithio a fforddiadwyedd	Cwestiynau am fforddiadwyedd teithio ar fws a thrên.
Mesurau cydraddoldeb	Cwestiynau demograffig, gan gynnwys cwestiynau am ryw, rhywedd, statws perthynas, ethnigrwydd, crefydd, rhywioldeb a maint aelwydydd.
Eitemau asesu'r arolwg	Cwestiynau am y profiad o lenwi'r arolwg.
Cymhellion	Cwestiynau ar gyfer gweinyddu'r cymhelliant i'r ymatebydd, os ydynt am gael un.
Cydsyniad a manylion cyswllt	Cwestiynau'n holi a fyddai'r ymatebydd yn fodlon cyfrannu at ymchwil debyg yn y dyfodol, gan gymryd eu manylion os byddant yn dymuno gwneud hynny.
SAIL	Cwestiynau yn casglu gwybodaeth er mwyn gallu cysylltu data'r arolwg â chronfa ddata SAIL yn ddienw (gweler 4.7).

4.3 Y dyddiadur teithio

Cafodd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ei lunio i gasglu gwybodaeth fanwl am deithiau diweddar ymatebwyr yng Nghymru, fel y dull teithio, y pellter a deithiwyd a phwrpas y daith. I wneud hyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr ble, pryd, sut a pham eu bod wedi teithio yn ystod y ddau ddiwrnod cyn y diwrnod y cwblhawyd yr arolwg. Dim ond siwrneiau a ddechreuodd a/neu a orffennodd yng Nghymru a gofnodwyd ac eithriwyd teithiau a wnaed ar gyfer ymarfer corff, pleser/hamdden, neu yn ystod eu gwaith. Ar gyfer pob taith, casglwyd data am leoliadau cychwyn a cyrchfannau.

I gasglu data lleoliad, cafodd API Mapiau OS ei integreiddio i feddalwedd yr arolwg; gofynnwyd i ymatebwyr nodi lleoliadau gan ddefnyddio map rhyngweithiol wedi'i osod yn holiadur yr arolwg. Roedd yr adnodd mapio yn caniatáu i ymatebwyr ddewis lleoliadau'n uniongyrchol, gan

leihau'r ddibyniaeth ar ddisgrifiadau ysgrifenedig a gwella manylder y data lleoliad a gasglwyd ar gyfer dadansoddiad dilynol.

Cynlluniwyd rhyngwyneb y map i gefnogi'r gwaith o gofnodi'r holl deithiau a wnaed yn ystod y ddau ddiwrnod cyn cwblhau'r arolwg. Roedd cofnodi lleoliadau cychwyn a chyrchfannau yn galluogi canfod nodweddion teithiau, gan gynnwys pellter teithio, ac yn cefnogi'r gwaith o ddadansoddi patrymau teithio ledled Cymru.

Darparodd yr adnodd mapio brofiad defnyddiwr tebyg i brofiad rhaglenni mapio ar y we a ddefnyddir yn eang, gan leihau'r dysgu sydd ei angen i nodi a chofnodi lleoliadau teithiau'n gywir. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ymarferoldeb a geir yn gyffredin mewn meddalwedd mapio cyfoes, gan ganiatáu i ymatebwyr chwyddo, tremio, chwilio a dewis.

Rhoddwyd swyddogaeth Mapiau OS ar waith mewn fersiwn wedi'i haddasu o raglen cleient gwe Blaise, lle ehangwyd rheolaeth map safonol Blaise i gynnwys rheolydd map OS. Cafodd y gwaith mapio ei wneud gan ddefnyddio gwasanaethau OS ar haen teils rastr Leaflet. Roedd disgwyl i ymatebwyr ddewis lleoliadau'n uniongyrchol ar y map drwy glicio i ollwng pin neu ddefnyddio'r nodwedd chwilio testun. Dim ond lle nad oedd modd nodi lleoliad y gofynnwyd i ymatebwyr roi disgrifiad drwy faes testun rhydd.

Cefnogwyd y swyddogaeth chwilio lleoliad drwy integreiddio ag API Lleoedd OS ac API Enwau OS. Roedd API Lleoedd OS yn cefnogi chwiliadau ar sail cyfeiriadau a chodau post, ac roedd API Enwau OS yn galluogi chwiliadau gan ddefnyddio enwau lleoedd, tirnodau, ffyrdd a nodweddion daearyddol eraill. Gyda'i gilydd, roedd y gwasanaethau hyn yn ei gwneud hi'n haws ac yn fwy cywir cofnodi lleoliadau teithiau. Rhoddwyd fersiwn wedi'i haddasu o'r Geocodiwr Rheoli Taflenni ar waith i gefnogi'r integreiddio hwn. Yn wahanol i'r ffurfweddiad diofyn, a oedd yn cynnal un API, roedd y rheolydd wedi'i addasu yn holi API Lleoedd OS yn gyntaf a, lle nad oedd cyfatebiad yn cael ei ganfod, yn holi API Enwau OS yn awtomatig. Roedd y dull hwn yn gwella cwmpas a defnyddioldeb wrth nodi lleoliadau.

Lle nad oedd ymatebwyr yn gallu nodi lleoliad ar y map, gofynnwyd iddynt ddarparu disgrifiad testun rhydd yn lle hynny. Adolygwyd yr ymatebion hyn wrth brosesu data a, lle bo modd, fe'u troswyd yn god post.

Cafodd haenau ychwanegol eu cynnwys i gefnogi mathau penodol o deithiau. Ymgorfforwyd cronfa ddata chwiliadwy o orsafoedd trenau ar gyfer ymatebwyr a oedd yn adrodd am deithio ar drenau. Ar gyfer teithiau ar fws, cyflwynwyd gwybodaeth am safleoedd bysiau gan ddefnyddio gwasanaeth ArcGIS. Cafodd ei ffurfweddu i ddarparu cyfesurynnau, gwybodaeth lefel stopio, data cyfeiriadol ac eiconau cysylltiedig. Cafodd y gwasanaeth hwn ei integreiddio drwy Haen Nodwedd Esri Leaflet, a oedd yn golygu bod modd gweld safleoedd bysiau a chyfnewidfeydd yn uniongyrchol ar ryngwyneb y map.

Er mwyn sicrhau cydnawsedd rhwng nifer o ffynonellau data, defnyddiwyd llyfrgell JavaScript Proj4 i drawsnewid cyfesurynnau ar draws gwahanol systemau cyfeirio gofodol a ddefnyddir gan wasanaethau OS, API y safleoedd bws ac amgylchedd Blaise. Cafodd y rheolydd map ei ffurfweddu ymhellach drwy briodweddau wedi'u haddasu'n arbennig a ddiffinnir yn y Golygydd Cronfa Ddata Adnodd Blaise, gan ganiatáu mireinio ymddygiad a defnyddioldeb cyffredinol API.

Roedd y data a gasglwyd drwy'r APIs yn cynnwys cyfesurynnau lledred a hydred, a gwybodaeth am godau post. Defnyddiwyd y data hyn yn yr arolwg, lle bo hynny'n berthnasol, i gefnogi'r ymatebydd, ac mewn gwaith prosesu dilynol. Gan fod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar deithiau a ddechreuodd a/neu a ddaeth i ben yng Nghymru, cafodd nifer o ffynonellau data eu cyfuno i benderfynu a oedd pob taith a adroddwyd wedi digwydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru ac felly o fewn cwmpas y dadansoddiad.

Yn bennaf, cynhaliodd y cyfwelwyr arolygon yng nghartrefi'r ymatebwyr, lle'r oedd cysylltedd â'r rhyngrwyd yn amrywio'n sylweddol. Nid oedd modd gwarantu cysylltiad diogel a sefydlog bob amser drwy gysylltu â dyfais symudol gwaith cyfwelydd. Roedd gweithdrefnau eraill ar gael lle nad oedd modd cael gafael ar yr adnodd mapio.

Er mwyn lliniaru hyn, datblygwyd opsiwn dyddiadur papur a'i ddarparu i weithwyr maes i'w ddefnyddio lle nad oedd modd sefydlu cysylltiad sefydlog. Roedd hyn yn ailadrodd yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r rhyngwyneb seiliedig ar fapiau; fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys y cymhorthion gweledol, na'r gwiriadau dilysu a oedd ar gael yn yr API. Roedd y dyddiadur papur yn caniatáu i ddata barhau i gael ei gasglu mewn sefyllfaoedd lle nad oedd cysylltedd digonol neu lle nad oedd yr API OS ar gael oherwydd ymyriad gwasanaeth. Unwaith roedd cysylltiad diogel a sefydlog â'r rhyngrwyd ar gael, roedd cyfwelwyr yn trosglwyddo'r wybodaeth a gasglwyd ar y dyddiadur papur i'r adnodd mapio ar-lein ar gyfer ateb perthnasol yr arolwg gan alluogi casglu data man cychwyn a chyrchfan yn yr un fformat â chyfweliadau lle roedd y swyddogaeth mapio'n cael ei defnyddio'n uniongyrchol. Yna roedd y dyddiadur papur yn cael ei ddinistrio'n ddiogel. Roedd y dull hwn yn helpu i sicrhau cysondeb a chymaroldeb o ran data lleoliad ar draws holl ddulliau'r arolwg.

Ni chynhaliwyd pob cyfweliad wyneb yn wyneb, ac roedd swyddogaeth weledol yn cael ei cholli pan gynhaliwyd cyfweliadau drwy CAPI-Ffôn neu pan oedd cyfwelwyr yn dychwelyd at gwblhau'r map o bell. Ni newidiodd y dull o gofnodi lleoliad; mae cyfwelwyr yn dal i fewnbynnu lleoliadau gan ddefnyddio'r API map. Fodd bynnag, yn hytrach na defnyddio'r map yn uniongyrchol i nodi lleoliadau, roedd yn ofynnol i ymatebwyr ddisgrifio'r lleoliadau roeddent yn dymuno eu cofnodi, dros y ffôn. Cafodd cyfwelwyr eu briffio i fod yn amyneddgar gydag ymatebwyr wrth gyflawni'r dasg hon ac i annog ymatebwyr i ddarparu gwybodaeth allweddol er mwyn dod o hyd i leoliadau (e.e. codau post, pwyntiau cyfeirio daearyddol).

4.4 Cyfweliad CAWI

Ar y cyswllt cyntaf, roedd y sawl a dderbyniodd y llythyr gwahoddiad yn cael ei annog i gwblhau Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ar-lein. Roedd y llythyr yn rhoi dau ddull o gael mynediad at yr arolwg i'r ymatebwyr:

- Cyfeiriad gwe, y gallent ei deipio yn eu porwr ochr yn ochr â'r codau mynediad a ddarparwyd;
- Cod QR unigryw yn cynnwys cod URL a chod mynediad, y gallent ei sganio.

Ar ôl iddynt gyrraedd dolen yr arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr nodi un o'r ddau god mynediad a roddwyd iddynt ar eu llythyr gwahoddiad. Roedd y rhain yn 9 digid o hyd ac yn cynnwys cymysgedd o lythrennau a rhifau. Os oedd ail oedolyn ar yr aelwyd eisiau cymryd rhan, fe'u cyfarwyddwyd i ddefnyddio'r ail god mynediad.

Roedd llythyrau dilynol yn cynnwys yr un dolenni a chodau mynediad ac yn rhoi gwybod i ymatebwyr am ffyrdd eraill iddynt allu cymryd rhan yn yr arolwg. Roedd y llythyr atgoffa cyntaf yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i drefnu cyfweliad dros y ffôn, ac roedd yr ail lythyr atgoffa yn rhoi gwybod i'r aelwyd bod cyfwelydd yn mynd i ymweld yn fuan i gynnig apwyntiad wyneb yn wyneb.

Ar ôl rhoi eu cod mynediad, gallai ymatebwyr ddechrau'r arolwg, a gynlluniwyd i'w ddefnyddio ar sgriniau bach (e.e. symudol) a mawr (e.e. Cyfrifiadur Personol). Er mwyn cynnal preifatrwydd a diogelwch, roedd ymatebwyr yn cael eu logio allan yn awtomatig ar ôl 20 munud o anweithgarwch ac roedd yn rhaid iddynt roi eu cod mynediad eto er mwyn bwrw ymlaen. Roedd unrhyw ymatebion a roddwyd yn flaenorol wedi cael eu cadw, gan ganiatáu i ymatebwyr ailgydio yn yr arolwg o'r man lle'r oeddent wedi gadael.

Ar ôl cwblhau'r arolwg, cyflwynwyd sgrin gadarnhau derfynol i'r ymatebwyr yn diolch iddynt am gymryd rhan ac yn cadarnhau bod yr arolwg wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Yna dywedwyd wrthynt y gallent gau ffenestr eu porwr.

4.5 Y cyfweliad CAPI a CAPI-Ffôn

Fel arfer, cynhaliwyd cyfweliadau CAPI a CAPI-Ffôn drwy apwyntiad, ar ôl i'r cyfwelydd lwyddo i gysylltu â rhywun yn y cyfeiriad a ddyrannwyd a threfnu amser a lle i gynnal cyfweliad. Mewn rhai achosion, efallai y bydd ymatebydd wedi cael llythyr ac wedi cysylltu i drefnu cyfweliad CAPI neu CAPI-Ffôn cyn i gyfwelydd geisio cysylltu yn ei gyfeiriad. Mewn achosion eraill, efallai bod ymatebwyr wedi cytuno i apwyntiad 'galw heibio', lle cynhaliwyd y cyfweliad ar yr un pryd â'r cyswllt cyntaf.

Fel arfer, cynhaliwyd cyfweliadau CAPI a CAPI-Ffôn yn ystod un apwyntiad, er bod cyfwelwyr wedi cael eu hyfforddi i awgrymu torri cyfweliadau i fyny i nifer o apwyntiadau os oedd hynny'n addas i'r ymatebydd. Cwblhawyd yr arolwg ar liniaduron cyfwelwyr, a oedd â fersiwn all-lein o'r arolwg wedi'i lawrlwytho i'w meddalwedd rheoli achosion. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr elfen

dyddiadur teithio ar-lein ac roedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfwelwyr gysylltu â'r rhyngrwyd ac agor dolen we yn ystod y cyfweliad. Roedd cyfwelwyr yn dechrau'r arolwg drwy gyrchu'r achos penodol yn eu system rheoli achosion, cwblhau arsylwadau o'r cyfeiriad a'r dewis ar hap, a chlicio botwm i agor yr arolwg. Yna byddent yn darllen y cwestiynau a'r opsiynau ymateb fel yr oeddent yn ymddangos ac yn nodi'r ateb a ddarparwyd gan yr ymatebydd.

Roedd modd cymharu cynnwys holiaduron CAWI, CAPI a CAPI-Ffôn yn hawdd iawn.
Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau canlynol yn bodoli rhyngddynt:

- Roedd yr arolwg CAPI yn cynnwys elfen hunan-lenwi ar gyfer elfennau canlynol yr arolwg: y dyddiadur teithio, cyflogaeth, nam, fforddiadwyedd a blociau mesur cydraddoldeb. Nid oedd hyn yn bosibl yn CAPI-Ffôn a chyfarwyddwyd cyfwelwyr i fod yn fwy parod i dderbyn gwrthodiadau i'r eitemau hyn.
- Roedd yr arolwg CAPI yn cynnwys cwestiynau ychwanegol a oedd yn annog ymatebwyr i hunan-lenwi adran Hunan-gyfweld gyda Chymorth Cyfrifiadur.
- Roedd yr arolygon CAPI a CAPI-Ffôn yn cynnwys cwestiwn cysylltu yn gofyn i'r cyfwelydd neu'r ymatebydd glicio dolen i gael mynediad at y dyddiadur.
- Roedd yr arolygon CAPI a CAPI-Ffôn yn cynnwys rhai cwestiynau ar ddiwedd yr arolwg, yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cydsynio i'r tîm sicrhau ansawdd gysylltu â nhw yn y dyfodol.
- Nid oedd yr arolygon CAPI a CAPI-Ffôn yn cynnwys opsiynau "ddim yn gwybod" ac "mae'n well gen i beidio â dweud". Yn hytrach, gofynnwyd i'r cyfwelwyr ddewis yr opsiynau ymateb hyn pan ddywedodd yr ymatebwyr yn ddigymell nad oeddent yn gwybod neu fod yn well ganddynt beidio ag ateb.

Roedd cyfweliadau CAPI yn cynnwys cardiau arddangos ar gyfer cwestiynau gyda rhestrau ymateb hir, gan alluogi ymatebwyr i ddarllen yr opsiynau eu hunain a darparu ymatebion yn ddienw.

4.6 Gofynion o ran yr iaith Gymraeg

Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyfreithiol i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, cynlluniwyd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru fel arolwg cwbl ddwyieithog. Roedd yr holl ddeunyddiau i'r ymatebydd ac offerynnau casglu data ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cafodd y cynnwys Cymraeg ei adolygu a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a TrC cyn ei roi ar waith.

Roedd y deunyddiau a ddarparwyd yn y ddwy iaith yn cynnwys:

- Holiadur yr arolwg
- Cwestiynau API yn seiliedig ar fap
- Dyddiadur teithio papur wrth gefn
- Llythyrau gwahoddiad ac atgoffa
- Dogfen cwestiynau cyffredin

- Gohebiaeth cyswllt a gollwyd
- Deunyddiau ar-lein ar gyfer cymryd rhan
- Deunyddiau cymorth cysylltu data SAIL
- Cyfathrebiadau am gymhelliant
- Gwasanaethau cefnogi llinell gymorth

Caniatawyd i ymatebwyr gymryd rhan yn Gymraeg ar draws y tri dull gweinyddu: ar y we, wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Wrth lenwi'r arolwg ar-lein, roedd ymatebwyr yn gallu dewis yr iaith oedd orau ganddynt. Roedd pob tudalen arolwg yn cynnwys swyddogaeth toglo a oedd yn caniatáu i ddefnyddwyr newid yn ddi-dor rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd hyn yn ymestyn i'r API OS ac adnoddau cysylltiedig seiliedig ar fapiau, gan gynnwys yr haenau gwell ar gyfer chwilio am orsafoedd trenau ac arosfannau bysiau. Cyflwynwyd yr opsiwn iaith ar dudalen gyntaf yr arolwg – y dudalen fewngofnodi – lle roedd disgrifiad o'r arolwg yn ddwyieithog.

Roedd y dull dwyieithog cynhwysfawr hwn yn sicrhau cysondeb ar draws pob cam o'r arolwg ac yn cefnogi cyfranogiad cynhwysol.

4.7 Cysylltu Data Dienw'n Ddiogel

Roedd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cynnwys eitemau i hwyluso'r broses o sicrhau bod ymatebion unigol i'r arolwg yn cael eu cysylltu'n ddienw â'r banc data SAIL a gedwir ym Mhrifysgol Abertawe.

Ar ddiwedd yr arolwg, dywedwyd wrth ymatebwyr y gallai eu data arolwg gael ei gysylltu â SAIL oni bai eu bod yn optio allan o gysylltu data. Lle nad oedd ymatebwyr wedi optio allan o gysylltu data, gofynnwyd iddynt ddarparu rhai eitemau data personol ychwanegol (enw llawn, rhyw, dyddiad geni a chod post) a oedd yn ofynnol i hwyluso cysylltu data'n ddienw.

4.8 Codio canlyniadau

Pan nad oedd cyfeiriad a samplwyd yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg mwyach (h.y. roedd eu ffenestr amser ar gyfer cymryd rhan wedi'i chau), defnyddiwyd cod a oedd yn cynrychioli canlyniad penodol. Ceir rhestr lawn o ganlyniadau posibl y gwaith maes isod, yn nhabl 3.

Tabl 3. Codau canlyniadau a ddefnyddir yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Cod	Math	Canlyniad
110	Cynhyrchiol	Cyfweliad wedi'i gwblhau'n llawn.
210	Cynhyrchiol	Cyfweliad wedi'i gwblhau'n rhannol; cyrhaeddodd yr ymatebydd y bloc mesurau cydraddoldeb ond ni chyrhaeddodd y bloc cymhelliant. Mae swm derbyniol o ddata wedi'i gasglu.

219	Rhannol gynhyrchiol	Cyfweliad wedi'i gwblhau'n rhannol; ni chyrhaeddodd yr ymatebydd y bloc mesurau cydraddoldeb.
310	Diffyg cyswllt	Cymhwysedd wedi'i sefydlu ond ni wnaed cyswllt ag unrhyw un yn y cyfeiriad ar ôl 6 galwad neu fwy.
321	Diffyg cyswllt	Cyswllt wedi'i wneud, ond nid yn yr uned fyw a ddewiswyd (a ddefnyddir dim ond ar gyfer cyfeiriadau ag unedau byw lluosog).
322	Diffyg cyswllt	Cyswllt wedi ei wneud yn yr aelwyd (a ddewiswyd) ond nid gydag unrhyw un o'r cyfeiriad.
328	Diffyg cyswllt	Unedau byw lluosog yn unig: cyswllt wedi'i wneud yn yr uned fyw (a ddewiswyd), ond nid gydag unrhyw un o'r aelwyd a ddewiswyd.
410	Diffyg cyswllt	Gwrthod gan y swyddfa.
421	Diffyg cyswllt	Cyswllt wedi'i wneud yn y cyfeiriad a samplwyd, ond gwrthodwyd gwybodaeth am nifer yr unedau byw yn y cyfeiriad.
422	Gwrthod	Methu canfod yr ymatebydd/ymatebwyr targed – gwrthodwyd rhoi gwybodaeth berthnasol.
428	Gwrthod	Cyswllt wedi'i wneud yn yr uned fyw, ond gwrthodwyd gwybodaeth am nifer yr aelwydydd.
431	Gwrthod	Gwrthod cyn cyfweliad.
432	Gwrthod	Gwrthod drwy ddirprwy.
440	Gwrthod	Gwrthod yn ystod cyfweliad.
450	Gwrthod	Torri apwyntiad – dim ailgysylltu.
511	Anghynhyrchiol arall	Sâl dros dro yn ystod cyfnod yr arolwg – hysbyswyd y swyddfa.
512	Anghynhyrchiol arall	Sâl dros dro yn ystod cyfnod yr arolwg – hysbyswyd y cyfwelydd.
521	Anghynhyrchiol eraill	I ffwrdd yn yr ysbyty yn ystod cyfnod yr arolwg – hysbyswyd y swyddfa.
522	Anghynhyrchiol arall	I ffwrdd yn yr ysbyty yn ystod cyfnod yr arolwg – hysbyswyd y cyfwelydd.
531	Anghynhyrchiol arall	Yn methu'n gorfforol neu'n feddyliol – hysbyswyd y swyddfa.
532	Anghynhyrchiol arall	Yn methu'n gorfforol neu'n feddyliol – hysbyswyd y cyfwelydd.
541	Anghynhyrchiol arall	Anawsterau iaith – hysbyswyd y swyddfa.
542	Anghynhyrchiol arall	Anawsterau iaith – hysbyswyd y cyfwelydd.
593	Anghynhyrchiol arall	Cwblhaodd yr ymatebydd ar-lein yn ystod cam gwaith maes CAPI.

594	Anghynhyrchiol arall	Mae'r ymatebydd eisiau cwblhau ar-lein yn ystod cam gwaith maes CAPI.
599	Anghynhyrchiol arall	Anghynhyrchiol arall
612	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Dyrannwyd ond ni wnaed ymgais.
620	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Anghyraeddadwy.
630	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Dim modd dod o hyd i'r cyfeiriad.
640	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Ni wyddys a yw'r cyfeiriad yn un preswyl: gwrthodwyd rhoi gwybodaeth.
641	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Ni wyddys a yw'r cyfeiriad yn un preswyl: Dim cyswllt ar ôl 6 galwad a mwy.
650	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Cyfeiriad preswyl ond ni wyddys a oes person(au) cymwys yn bresennol – gwrthodwyd rhoi gwybodaeth.
651	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Cyfeiriad preswyl ond ni wyddys a oes person(au) cymwys yn bresennol – dim cyswllt ar ôl 6 galwad a mwy.
690	Cymhwyster yn anhysbys – dim cyswllt	Cymhwysedd anhysbys arall (ni wnaed cyswllt).
710	Anghymwys neu ddiangen	Heb eu hadeiladu eto/wrthi'n cael eu hadeiladu.
720	Anghymwys neu ddiangen	Wedi dymchwel/adfeiliedig.
730	Anghymwys neu ddiangen	Uned fyw wag.
740	Anghymwys neu ddiangen	Cyfeiriad heb fod yn un preswyl (e.e. busnes, ysgol, swyddfa, ffatri ac ati).
750	Anghymwys neu ddiangen	Cyfeiriad mewn meddiant, dim aelwyd breswyl (e.e. cartref gwyliau/penwythnos wedi'i feddiannu).
760	Anghymwys neu ddiangen	Sefydliad cymunedol – dim anheddau preifat.
790	Anghymwys neu ddiangen	Anghymwys arall.
810	Cymhwysedd anhysbys – cyswllt wedi'i wneud	Gwrthod rhoi gwybodaeth ynghylch a yw'r cyfeiriad yn un preswyl.
820	Cymhwysedd anhysbys – cyswllt wedi'i wneud	Cyswllt wedi'i wneud ond nid gyda rhywun a all gadarnhau presenoldeb aelwyd breswyl.
830	Cymhwysedd anhysbys – cyswllt wedi'i wneud	Gwrthod rhoi gwybodaeth ynghylch a yw preswylydd/preswylwyr yn gymwys.
850	Cymhwysedd anhysbys – cyswllt wedi'i wneud	Ni ellir cadarnhau cymhwysedd preswylydd/preswylwyr oherwydd rhwystr iaith.
890	Cymhwysedd anhysbys – cyswllt wedi'i wneud	Cymhwysedd anhysbys arall.

Pe bai ymatebydd wedi cymryd rhan yn ystod cyfnod gwaith maes y CAWI yn unig, dim ond cod canlyniad cynhyrchiol neu rannol gynhyrchiol yr oedd modd i'w hachos ei gael. Ystyriwyd

bod achos yn gwbl gynhyrchiol pe bai'r ymatebydd wedi cyrraedd y cwestiwn cymhelliant cyntaf, yn rhannol gynhyrchiol pe bai'r ymatebydd wedi cyrraedd y cwestiwn ethnigrwydd (yn y bloc mesurau cydraddoldeb) ac yn rhannol gynhyrchiol yn gynnar pe bai wedi cyrraedd y bloc iaith Gymraeg.

Dim ond y tri chanlyniad hyn oedd yn bosibl yn ystod cyfnod gwaith maes CAWI yn unig oherwydd nad oedd unrhyw wybodaeth arall am y cyfeiriad ar gael, gan nad oedd gweithiwr maes wedi ymweld â'r cyfeiriad eto. Gallai aelwyd gael hyd at ddau o'r canlyniadau hyn, gan fod dau ymatebydd yn cael cymryd rhan drwy CAWI. Ar ôl i waith maes CAPI ddechrau, ymwelodd cyfwelydd ag unrhyw gyfeiriadau heb god canlyniad cynhyrchiol, a allai ddarparu rhagor o wybodaeth am y cyfeiriad.

Yn ystod cam CAPI y gwaith maes, roedd yn ofynnol i gyfwelwyr aseinio codau canlyniadau i bob cyfeiriad nad oedd wedi cwblhau'r arolwg ar-lein yn ystod y cam CAWI yn unig. Cafodd codau cwbl gynhyrchiol a rhannol gynhyrchiol eu cynhyrchu'n awtomatig gan y rhaglen CAPI, a chafodd gweddill y codau canlyniadau eu haseinio â llaw gan y cyfwelydd neu gan dîm swyddfa NatCen – pan oedd hynny'n briodol. Cafodd cyfeiriadau na chawsant eu dyrannu i gyfwelydd neu a oedd wedi'u dyrannu ond heb eu codio allan (ac felly yn cael eu hystyried yn rhai a oedd heb eu gweithio) y cod canlyniad diofyn 612 ar ddiwedd y gwaith maes ar gyfer y swp.

4.9 Cymhelliant amodol

Cynigiodd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru daleb siopa Love2Shop gwerth £10 i unigolion a oedd yn cwblhau cyfweliad cwbl gynhyrchiol.

Derbyniodd ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg drwy CAWI neu CAPI-Ffôn y cymhelliant amodol drwy e-bost neu, os oedd yn well ganddynt, drwy'r post. Casglwyd gwybodaeth am y dull danfon a oedd yn cael ei ffafrio a gwybodaeth gyswllt berthnasol yr ymatebydd tua diwedd y cyfweliad. Yn dibynnu ar y math o gymhelliant a gyflwynwyd, anfonwyd "e-bost diolch" neu "llythyr diolch", ac mae enghreifftiau o'r rhain i'w gweld yn atodiad N ac atodiad O yn y drefn honno.

Cafodd yr ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg drwy CAPI gerdyn rhodd Love2Shop gwerth £10 gan y cyfwelydd. Dywedwyd wrthynt y byddai'r cerdyn rhodd yn mynd yn weithredol o fewn y 5 diwrnod gwaith nesaf. Cafodd y cerdyn rhodd ei actifadu ar ôl i ddata CAPI gael ei drosglwyddo'n ôl i swyddfa NatCen.

4.10 Cyfraddau ymateb

At ei gilydd, roedd 35% o'r cyfeiriadau wedi arwain at ganlyniad cynhyrchiol (h.y. roedd un neu fwy o unigolion cymwys ar yr aelwyd a samplwyd wedi cwblhau'r arolwg). Fodd bynnag, mae'r dull hwn o amcangyfrif yn tanamcangyfrif cyfradd ymateb yr arolwg ychydig, oherwydd bod achosion anghymwys wedi'u cynnwys ym maint y sylfaen (h.y. wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau

a allai fod wedi darparu ymateb). Ar draws pob cyfeiriad a gyhoeddwyd, roedd 8.5% yn anghymwys. Mae Tabl 4 yn dangos amlder pob canlyniad ar lefel cyfeiriadau.

Tabl 4. Canlyniadau ymateb ar gyfer y sampl a ddyrannwyd (*n* = 14,900).

Math o god canlyniad	Canran y cyfeiriadau a ddyrannwyd*
Cynhyrchiol	35.4%
Rhannol gynhyrchiol	2.5%
Diffyg cyswllt	10.9%
Gwrthod	17.8%
Anghynhyrchiol arall	15.1%
Cymhwysedd anhysbys	7.9%
Anghymwys neu ddiangen	8.5%
Cymhwysedd anhysbys – cyswllt wedi'i wneud	2.1%
Cyfanswm	100.0%

*Wedi'i dalgrynnu i 1 lle degol

Y gyfradd ymateb gwbl gynhyrchiol ar lefel unigol oedd 21%; gan dybio bod dau unigolyn cymwys yn byw ym mhob aelwyd. Mae hyn yn danamcangyfrif yr ymateb ar lefel unigol oherwydd bod achosion anghymwys unwaith eto'n cael eu cynnwys ym maint y sylfaen ac oherwydd na fydd pob cyfeiriad a samplwyd wedi cynnwys dau berson sy'n gymwys i gymryd rhan.

Cwblhawyd bron i dri chwarter (74%) y cyfweliadau cynhyrchiol drwy CAWI, gan ddangos effeithiolrwydd y dull gwe fel y prif ddull o gasglu data. Cynhaliwyd 24% arall o gyfweliadau cynhyrchiol drwy gyfweliadau CAPI wyneb yn wyneb, a chwblhawyd 2% drwy CAPI-Ffôn. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau dull hyn yn adlewyrchu natur gydredol dyluniad y gwaith maes. Roedd cyfwelwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi cyfranogiad ar draws dulliau, gan annog a chynorthwyo ymatebwyr i lenwi'r arolwg ar-lein lle bo hynny'n briodol.

4.11 Rheoli ansawdd

Gwiriwyd achosion cynhyrchiol a gyflwynwyd gan gyfwelwyr i sicrhau bod y cyfwelwyr yn gweithio yn unol â'r safonau y cawsant eu hyfforddi arnynt ac yn unol â gofynion penodol y prosiect y cawsant eu briffio arnynt. Yn benodol, roedd y gwiriadau'n cynnwys cysylltu ag ymatebwyr a oedd wedi rhoi caniatâd i ailgysylltu ynghylch y cyfweliad roeddent wedi'i gynnal. Gofynnwyd i ymatebwyr gadarnhau eu bod wedi cymryd rhan yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru a bod y cyfwelydd wedi ymddwyn yn unol â'u hyfforddiant a'r cyfarwyddiadau briffio.

Gwiriwyd cyfanswm o 637 achos CAPI cynhyrchiol. Gwnaed hyn dros y ffôn (445), drwy'r post (105) a – phan na chafwyd ymateb – wyneb yn wyneb (87). Fel arfer, cynhaliwyd gwiriadau o fewn 4 wythnos i ddyddiad y cyfweliad.

Yn ogystal â gwiriadau dilysu ymatebwyr, adolygwyd cyfweliadau CAPI fel mater o drefn ar gyfer patrymau ymateb anarferol neu nodweddion eraill yr oedd angen eu harchwilio ymhellach. Lle nodwyd achosion o'r fath, fe'u trafodwyd gyda'r cyfwelydd i gadarnhau amgylchiadau'r cyfweliad ac i sicrhau bod y data'n adlewyrchu atebion yr ymatebydd yn gywir. Roedd y broses hon yn rhan o ddull ehangach yr arolwg o gynnal ansawdd a chysondeb data.

5. Prosesu data

5.1 Ffynonellau Data

Cafodd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ei ddylunio fel arolwg dull cymysg. Er mwyn hwyluso hyn yn amgylchedd Blaise 5, sefydlwyd y ddau ddull (CAWI a CAPI) fel prosiectau ar wahân, gan ddefnyddio gwahanol gronfeydd data. Roedd pob dull yn gweithredu fel ffynhonnell ddata.

Yn ymarferol, arweiniodd hyn at dair ffynhonnell wahanol o ddata. Cynhyrchodd y dull CAWI un set ddata, yn cynnwys data'r holiadur a'r dyddiadur teithio ar y cyd a chynhyrchodd y dull CAPI ddwy set ddata, gan rannu'r data a gasglwyd all-lein (h.y. data'r holiadur) a'r data a gasglwyd ar-lein (h.y. data'r dyddiadur teithio).

Er bod y CAPI-Ffôn, o fwriad, yn ddull gwahanol, nid oedd yn wahanol yn rhaglennol i'r dull CAPI. Roedd y dull o gasglu data yn wahanol, ond nid oedd y seilwaith data a rhaglennu yn wahanol. Felly, daeth data CAPI-Ffôn drwy'r un ddwy ffynhonnell â data CAPI (h.y. data'r holiadur a data'r dyddiadur teithio). Mae unrhyw gyfeiriad at ddata CAPI yn y bennod hon yn cyfeirio at ddata sy'n dod o gronfa ddata CAPI, gan gynnwys dulliau casglu data CAPI a CAPI-Ffôn.

5.2 Cysoni data

Roedd bodolaeth tair ffynhonnell ddata yn cyflwyno'r angen am gysoni. Roedd dyluniad yr arolwg yn nodi y gallai aelwydydd gyfrannu un neu ddau o achosion cynhyrchiol o CAWI neu un achos cynhyrchiol o CAPI. Fodd bynnag, o ystyried y ffynonellau data ar wahân, roedd yn bosibl y gallai aelwyd dorri'r rheolau dylunio hyn. Pe bai aelwyd yn llenwi'r arolwg ar-lein, yn agos at yr amser y gwnaethant ei gwblhau drwy CAPI gallent gynhyrchu o leiaf un achos CAWI cynhyrchiol ac achos CAPI cynhyrchiol. Pe bai aelwyd yn cael trydydd cod mynediad, gallai gynhyrchu tri achos CAWI cynhyrchiol (un yn fwy na'r hyn a oedd yn cael ei ganiatáu). Roedd y ddwy senario yn anghyson â dyluniad yr arolwg.

I fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, cafodd set o reolau cysoni eu creu a'u rhoi ar waith. Cafodd y rheolau hyn eu harwain gan yr egwyddor y dylai'r set ddata derfynol adlewyrchu dyluniad yr arolwg a sicrhau bod gan bob aelwyd gynrychiolaeth gyfartal. Er enghraifft, lle'r oedd aelwyd wedi cynhyrchu tri achos CAWI cynhyrchiol, dim ond y ddau gynharaf oedd yn cael eu cadw, gan na ddylai'r trydydd fod wedi digwydd.

Yn fras, roedd y rheolau ar gyfer cysoni data yn dilyn yr egwyddor y dylid cysoni data yn unol â'r hyn a ddylai fod wedi digwydd. Yn fwy penodol, ac i roi cyfrif am bob posibilrwydd, defnyddiwyd y rheolau canlynol:

1. Roedd unrhyw achosion cwbl gynhyrchiol yn cael eu cadw cyn achosion rhannol gynhyrchiol.
2. Lle'r oedd o leiaf un achos CAWI ac un achos CAPI yn bodoli, neu lle'r oedd tri achos CAWI yn bresennol:
    a. Un achos CAWI ac un achos CAPI;
        i. Cadwyd yr achos cynharaf a gwblhawyd
    b. Dau achos CAWI ac un achos CAPI;
        i. Cadwyd yr achos CAPI os mai dyma'r achos cynharaf a gwblhawyd.
        ii. Fel arall, cadwyd y ddau achos CAWI.
    c. Tri achos CAWI;
        i. Adolygwyd data demograffig i ganfod a chael gwared ar ddyblygiadau
        ii. Cadwyd y ddau achos cynharaf a gwblhawyd

5.3 Glanhau a golygu data

Ar ôl cysoni ac uno, cynhaliwyd gwiriadau ansawdd data safonol i nodi a dileu unrhyw ymatebion anghyson neu ymatebion o ansawdd isel fel arall. Roedd hyn yn bennaf yn cynnwys gwirio am ymatebwyr a oedd wedi cwblhau'r arolwg yn annisgwyl o gyflym (y cyfeirir atynt fel gwibwyr) ac ymatebwyr a oedd wedi cwblhau'r arolwg sawl gwaith.

Nodwyd gwibwyr drwy amcangyfrif canolrif yr amser a aeth heibio fesul newidyn a defnyddio'r amcangyfrifon hyn i gyfrifo'r amser cwblhau disgwyliedig ar gyfer pob ymatebydd. Cafodd y gwahaniaethau rhwng cyfanswm yr amser a'r amseroedd a amcangyfrifwyd eu mesur a'u defnyddio i greu ystod lle'r oedd y rhan fwyaf o'r gwahaniaethau hyn yn ymddangos. Pennwyd cyfyngiadau ar yr ystod hon (gan gynyddu'r ystod) i nodi amseroedd anarferol o isel (h.y. amseroedd y tu allan i'r ystod wedi'i haddasu). Cafodd unrhyw achosion a nodwyd fel rhai gwibwyr fel hyn eu dileu; cafodd un ar bymtheg eu dileu ar draws blwyddyn yr arolwg.

Gan fod yr arolwg yn caniatáu i hyd at ddau oedolyn gymryd rhan yn yr un aelwyd, roedd yn bosibl i'r un person lenwi'r arolwg ddwywaith, gan ddefnyddio'r ddau god mynediad o'u llythyr gwahoddiad. Cymharwyd yr ymatebion yn yr un aelwyd â'u hatebion i gwestiynau demograffig (oedran, rhyw, ethnigrwydd), eu gwybodaeth gyswllt (enw, yr e-bost a'r rhifau ffôn a ddarparwyd ganddynt), a gwybodaeth am eu haelwyd (nifer yr oedolion, nifer y plant, nifer y cerbydau). Adolygwyd unrhyw achosion lle'r oedd gwybodaeth yn cyfateb ar draws y categorïau hyn a chadwyd yr achos cyntaf a gwblhawyd (tra cafodd y llall ei daflu). Cafodd cyfanswm o bymtheg eu tynnu allan am eu bod wedi'u nodi fel rhai dyblyg.

Gwnaed cymariaethau o aelwydydd hefyd ar gyfer ymatebion i'r cwestiynau a oedd yn gofyn am nifer yr oedolion a'r plant ar yr aelwyd. Os oedd dau berson o'r un aelwyd wedi cymryd rhan, cymharwyd eu hatebion i'r ddau gwestiwn hyn. Os oedd y ddau ymatebydd yn anghytuno ar nifer yr oedolion a'r plant ar yr aelwyd, yna ystyriwyd mai atebion yr ymatebydd hynaf i'r cwestiynau hyn oedd y gwir werthoedd. Yn niffyg hyn (h.y. os oedd yr ymatebydd hynaf yn amhosibl ei benderfynu), ystyriwyd bod yr ymatebion a ddarparwyd gan y person cyntaf i

gwblhau'r arolwg ar yr aelwyd yn wir werthoedd. Defnyddiwyd y gwir werthoedd i greu fersiwn wedi'i chysoni o'r ymatebion hyn ar draws yr aelwyd gyfan. Defnyddiwyd y newidynnau hyn a gysonwyd yn ystod y broses bwysoli.

5.4 Codio

Roedd y cam nesaf o ran prosesu data yn cynnwys safoni'r codau y tu ôl i opsiynau ymateb cyffredinol (h.y. opsiynau gwrthod) a chymhwyso codau i ymatebion mewnbynnu testun rhydd. Roedd sawl ffurf ar y gweithgareddau hyn, a ddisgrifir isod.

5.4.1 Opsiynau ymateb nad ydynt yn rhai sylweddol

Cafodd opsiynau ymateb nad ydynt yn sylweddol, sydd fel arfer o ddiddordeb dadansoddol cyfyngedig, eu safoni ar draws y set ddata i sicrhau cysondeb. Cafodd y codau canlynol eu defnyddio'n gyson yng nghyswllt y categorïau ymateb hyn:

- Ddim yn berthnasol: -1
- Ddim yn gwybod: -8
- Mae'n well gen i beidio â dweud: -9

5.4.2 Ôl-godio

Roedd cyfanswm o 51 o gwestiynau yn yr arolwg yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddewis yr opsiwn ymateb "Arall (disgrifiwch)" ac ysgrifennu ymateb. Pan oedd ymatebwyr yn defnyddio'r opsiwn hwn ond yn darparu ymateb a oedd yn cyfateb i gategori a oedd yn bodoli, cafodd eu hatebion eu hail-aseinio i'r categori priodol a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Mae'r broses hon o godio ymatebion yn ôl i'r set bresennol o opsiynau ymateb yn cael ei galw'n ôl-godio.

Cafodd achosion lle'r oedd nifer sylweddol o ymatebwyr wedi darparu ymatebion tebyg ond heb eu rhestru o'r blaen drwy'r opsiwn testun rhydd eu hadolygu ar y cyd â TrC. Lle bo'n briodol, cafodd categorïau ymateb newydd eu creu i ddarparu ar gyfer yr atebion hyn a oedd yn codi dro ar ôl tro, a chafodd ymatebion perthnasol eu codio yn unol â hynny. Ceir rhestr o'r holl gategorïau ymateb newydd yn atodiad P.

Gwnaed y broses hon o ôl-godio gan ddefnyddio Ascribe Coder, cyflenwr trydydd parti wedi'i gymeradwyo gan NatCen, sy'n helpu i godio a dadansoddi ymatebion i arolygon testun agored.

5.4.3 Codio awtomatig

Wrth lenwi'r dyddiadur, gallai ymatebwyr beidio â ddefnyddio'r map rhyngweithiol a defnyddio cofnod testun rhydd yn lle hynny i ddisgrifio lleoliad taith. Lle bo modd, cafodd yr ymatebion testun rhydd hyn eu hôl-godio i godau post, fel y gellid eu defnyddio i ddadansoddi teithiau. Cafodd yr ymatebion hyn eu prosesu gan ddefnyddio dull awtomataidd dau gam i gael gwybodaeth am godau post. Roedd y ddau gam yn defnyddio Azure OpenAI, gradd menter Microsoft, defnydd preifat o fodelau iaith mawr (LLMs). Mae Azure OpenAI yn prosesu data

mewn amgylchedd diogel a phreifat, gan sicrhau cyfrinachedd llawn o ran ymatebion cyfranogwyr.

Dechreuodd y gweithgaredd hwn drwy hidlo cynnwys nad oedd yn ymwneud â lleoliad a roddwyd gan ymatebwyr. Roedd y cam hwn yn sicrhau mai dim ond gwybodaeth ddaearyddol berthnasol a oedd yn cael ei throsglwyddo i'w phrosesu, gan eithrio ymatebion amwys fel mathau generig o leoedd (e.e. "fferyllfa") nad oedd modd eu geocodio'n ystyrlon.

Ar ôl hidlo'r cofnodion testun i gynnwys gwybodaeth ddaearyddol berthnasol yn unig, defnyddiwyd technegau Adnabod Endidau a Enwir (NER) i dynnu gwybodaeth bosibl am gyfeiriadau o'r ymatebion testun. Cafodd pob cofnod lleoliad testun rhydd a ddarparwyd gan ymatebydd ei gymharu â lleoliad cartref cofnodedig yr ymatebydd hwnnw gan ddefnyddio LLM. Roedd y model yn asesu a oedd y ddau gofnod yn cyfeirio at yr un lle ffisegol, gan ystyried amrywiadau cyffredin fel byrfoddau ac enwau lleoedd llafar yn Gymraeg ac yn Saesneg (er enghraifft, mae ymatebydd sy'n ysgrifennu "home" neu "cartref" yn amlwg yn golygu ei gyfeiriad cartref). Dim ond pan oedd hyder yn uchel y disodlwyd cofnodion gan y model er mwyn osgoi cyflwyno gwallau.

Yn yr ail gam, cyflogwyd LLM lleol i ddod i gasgliad ynghylch cod post allanol (y segment cyntaf o god post yn y DU, er enghraifft CF10) o'r wybodaeth cyfeiriad a dynnwyd. Cafodd testun y lleoliad ei basio i'r un model Azure OpenAI, wedi'i ffurfweddu'n benodol i weithredu fel cynorthwyydd geocodio ar gyfer Cymru. Gan ddefnyddio ei gyd-destun, roedd y model yn dod i gasgliad ynghylch segment cyntaf o god post yn y DU, e.e. CF10 ar gyfer pob cofnod.

Defnyddiodd y model y rhesymeg ganlynol:

- Echdynnu a safoni codau post lle roeddynt eisoes wedi'u darparu; fel arall, amcangyfrif y cod post allanol pan oedd digon o fanylion am leoliad yng Nghymru ar gael.
- Dylai ymatebion barhau heb eu prosesu os ydynt y tu allan i Gymru neu os ydynt yn rhy amwys.

Roedd y data o ganlyniad yn cadw'r holl ymatebion gwreiddiol i'r arolwg ochr yn ochr ag aseiniadau cod post a dybiwyd o gydberthyniadau data hyfforddi. Profodd y dull awtomataidd hwn yn effeithiol o ran prosesu data lleoliad gair am air anghyson ac fe'i cynlluniwyd fel bod modd ei ailadrodd ar gyfer cylchoedd arolygu yn y dyfodol.

Gwnaed addasiadau i'r weithdrefn yn ystod y gwaith o brosesu'r data chwe mis. Ychwanegwyd lleoliad cartref yr ymatebydd at y data a ddarparwyd i'r LLM, er mwyn helpu i ganfod a oedd ymatebydd wedi dychwelyd adref, a rhoddwyd cyfarwyddiadau ychwanegol i'r LLM, gan ofyn iddo nodi a oedd yr ymatebydd wedi defnyddio "home" (neu "cartref") yn yr ymateb testun rhydd.

5.5 Newidynnau deilliedig

Yn olaf, deilliwyd newidynnau ychwanegol ar gyfer y set ddata. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ymatebydd, gwybodaeth a gafwyd o bara-ddata, a/neu wybodaeth o ffynonellau allanol (e.e. gwybodaeth ddaearyddol). Mae Tabl 5 yn rhoi rhestr lawn o newidynnau deilliedig ar gyfer y set ddata derfynol.

Tabl 5. Newidynnau deilliedig ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26.

Newidyn	Disgrifiad
serial_eul	Fersiwn wedi'i sgramblo o rif cyfresol, ar gyfer cynnal anhysbysrwydd wrth gyflwyno data.
serialh_sl	Fersiwn wedi'i sgramblo o rif cyfresol yr aelwyd, er mwyn cadw anhysbysrwydd wrth gyflwyno data.
freelancer_scrambled	Fersiwn wedi'i sgramblo o rif cyfwelydd, ar gyfer cynnal anhysbysrwydd wrth gyflwyno data.
agedv	Fersiwn wedi'i grwpio o'r newidyn oedran, yn cyfateb i'r categorïau oedran wedi'u bandio a ddefnyddiwyd yn yr holiadur os nad yw ymatebydd yn darparu ei union oedran.
disabilitystatus	Newidyn i gyd-fynd â'r safon wedi'i chysoni ar gyfer diffinio anabledd, a bennir gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS).
emp_status	Newidyn i gyd-fynd â'r safon wedi'i chysoni ar gyfer statws cyflogaeth yn y DU, a bennir gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS).
hhad_harm	Fersiwn wedi'i chysoni o nifer yr oedolion ar yr aelwyd; a ddefnyddir ar gyfer y broses bwysoli.
hhch_harm	Fersiwn wedi'i chysoni o nifer y plant ar yr aelwyd a ddefnyddir ar gyfer y broses bwysoli.
newperno	Newidyn i nodi ai'r ymatebydd oedd yr aelod cyntaf neu'r ail aelod o'r aelwyd i ymateb (pan fo'n berthnasol).
completion_mode	Newidyn i nodi a gymerodd yr ymatebydd ran drwy CAWI, CAPI neu CAPI-Ffôn.
start_location	Newidyn i nodi lleoliad cychwyn taith y dyddiadur.
purpose_updated	Newidyn i gyd-fynd â sut roedd TrC yn bwriadu adrodd pwrpas y daith; defnyddir ar gyfer y broses bwysoli.
tripnumber_dv	Newidyn i nodi pryd yn ystod y dydd y digwyddodd taith a nodwyd yn y dyddiadur.
in_wales	Newidyn i nodi a wnaeth y daith ddechrau a/neu orffen yng Nghymru.

5.6 Allbynnau data

Ar ôl cwblhau'r gwaith prosesu data, paratowyd setiau data i'w cyflwyno mewn dau gam: paratoi ar gyfer pwysoli a pharatoi setiau data terfynol.

Yn gyntaf, cafodd y rhestr o leoliadau teithio wedi'u codio, a'r newidyn deilliedig *in_wales* eu darparu i Trafnidiaeth Cymru i gael eu cytundeb ar 15fed Mai 2026. Rhoddwyd cytundeb amodol

ar 19eg Mai 2026, yn amodol ar fân addasiad i un achos. Yna, lluniwyd setiau data ar gyfer tîm ystadegau NatCen, fel y gellid cynhyrchu pwysolion ar gyfer y data.

Ar ôl pwysoli, lluniwyd setiau data terfynol ar gyfer eu cyflwyno ar lefel yr unigolyn a'r daith. Roedd y rhain yn cynnwys yr holl newidynnau wedi'u glanhau, eu prosesu a'r rhai deilliedig, ochr yn ochr â phwysolion terfynol yr arolwg. Cyflwynwyd y rhain i TrC ar 15fed Gorffennaf 2026.

6. Pwysoli

6.1 Crynodeb o'r dull pwysoli

Gan ddefnyddio methodoleg sy'n gyson â phwysoliad y chwe mis cyntaf o ymatebion, paratowyd dwy set o bwysolion ar gyfer ymatebion Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025-26:

- Set o bwysolion cyfweld ar gyfer data'r holiadur.
- Set o bwysolion dyddiadur ar gyfer data'r dyddiadur.

6.2 Pwysolion cyfweliadau

Disgrifir pum cam pwysoli ymatebion y cyfweliadau isod.

6.2.1 Pwysolion dewis cyfeiriadau (W1)

Cam cyntaf pwysoli wedi'i addasu ar gyfer y tebygolrwyddau gwahaniaethol o ran dewis cyfeiriadau yn ôl rhanbarth o ganlyniad i orsamplu Canolbarth Cymru. Cyfrifwyd y pwysolion (W1) fel gwrthdro'r tebygolrwydd o gael eu dewis, h.y. cyfanswm nifer y cyfeiriadau ym mhob rhanbarth yng Nghymru wedi'i rannu â nifer y cyfeiriadau a ddewiswyd.

6.2.2 Pwysoli i addasu ar gyfer gwahaniaethau yn y tebygolrwydd y bydd cyfeiriad yn cael ei ddyrannu i gyfwelydd (W2)

Oherwydd natur gwaith maes ar y we yn gyntaf a'r potensial ar gyfer gwahaniaethau mewn patrymau ymateb yn ôl dull casglu data, rhannwyd y cam pwysoli diffyg ymateb yn ôl dull. Roedd cam cyntaf pwysoli diffyg ymateb o ran cyfeiriad yn defnyddio atchweliad logistaidd i fodelu gwahaniaethau rhwng cyfeiriadau a roddwyd i gyfwelydd a chyfeiriadau a ddarparodd o leiaf un ymateb gwe o fewn 3 wythnos i'r llythyr gwahoddiad (h.y. cyfeiriadau nad oedd cyfwelydd wedi ymweld â nhw). Cafodd y model ei bwysoli yn ôl y pwysolion dewis cyfeiriadau ac roedd yn cynnwys y newidynnau rhagfynegi canlynol: mis dyrannu'r cyfeiriad, rhanbarth Cymru, statws trefol-gwledig Cyfrifiad 2021 mewn 6 chategori (RUC21), Dosbarthiadau Ardal Gynnyrch Cyfrifiad 2021 (OAC21), cwintelau dwysedd poblogaeth ar gyfer sectorau cod post, a dwysedd poblogaeth ar lefel Awdurdod Lleol.

Defnyddiwyd y tebygolrwydd a ragfynegwyd gan fodel (P1) ar gyfer pob cyfeiriad i gyfrifo pwysolion ar wahân ar gyfer pob dull: W2a=1/(1-P1) ar gyfer cyfeiriadau nad fu cyfwelydd yn ymweld â nhw, a W2b=1/P1 ar gyfer cyfeiriadau y bu cyfwelydd yn ymweld â nhw. Yna cynhyrchwyd dau bwysolyn cyfansawdd: W3a=W1*W2a a W3b=W1*W2b. O'u pwysoli yn ôl y pwysolion priodol (W3a a W3b), mae pob is-sampl dull (cyfeiriadau nad ymwelwyd â nhw a chyfeiriadau yr ymwelwyd â nhw gan gyfwelydd yn y drefn honno) yn gynrychioliadol o'r sampl cyfan a ddyrannwyd.

6.2.3 Pwysoli i addasu ar gyfer gwahaniaethau yn y tebygolrwydd o gyfeiriad yn ymateb ar ôl cael ei ddyrannu i gyfwelydd (W4)

Roedd cam olaf y pwysoli diffyg ymateb yn cynnwys modelu gwahaniaethau rhwng cyfeiriadau a oedd yn ymateb a chyfeiriadau nad oedd yn ymateb, ar gyfer pob cyfeiriad a ddyrannwyd i gyfwelydd. Y canlyniad oedd a oedd y cyfeiriad wedi darparu o leiaf un ymateb, naill ai ar y we ar ôl cael ei ddyrannu i gyfwelydd neu drwy gyfweliad wyneb yn wyneb.

Cafodd cyfeiriadau na chawsant eu dyrannu i gyfwelydd am eu bod wedi darparu ymateb ar y we o fewn 3 wythnos i'w dyrannu eu gollwng o sylfaen y model hwn, ynghyd â chyfeiriadau y gwyddys eu bod yn anghymwys (diangen).

Er mwyn rheoli'n gyson ar gyfer yr un ffynonellau bias yn nau ddull yr arolwg, cynhwyswyd yr un chwe newidyn yn y model terfynol ag ym model y cam blaenorol. Cafodd y tebygolrwydd a ragfynegwyd gan fodel (P2) ar gyfer pob cyfeiriad ymateb a ddyrannwyd i gyfwelydd ei amcangyfrif a chyfrifwyd y pwysolyn fel W4=1/P2. Cafodd y pwysolyn hwn ei docio ar y 99.5^{ed} canradd i wella effeithlonrwydd a lleihau effaith y dyluniad. Yna cyfrifwyd pwysolyn cyfansawdd (W5) ar gyfer pob cyfeiriad a roddodd ymateb i'r arolwg ar ôl ei ddyrannu i gyfwelydd fel cynnyrch W3b a W4.

Ar ôl y ddau gam modelu hyn, cafodd pwysolion diffyg ymateb cyfeiriad llawn (W6) eu creu fel a ganlyn:

- W3a: ar gyfer ymatebion cyfeiriadau nad fu cyfwelydd yn ymweld â nhw.
- W5: ar gyfer ymatebion cyfeiriadau y bu cyfwelydd yn ymweld â nhw.

6.2.4 Pwysolion aelwydydd (W7)

Cafodd y pwysolion lefel cyfeiriad (W6) eu paru ag ymatebion unigol, a chyfrifwyd pwysolyn aelwyd (W7) i addasu ar gyfer bias oherwydd gwahaniaethau systematig yn nifer y cyfweliadau a gwblhawyd o aelwydydd o wahanol feintiau. W7 yw nifer yr oedolion cymwys ar yr aelwyd wedi'i rannu â nifer yr ymatebion i'r arolwg o'r aelwyd. Er enghraifft, byddai aelwyd â 2 oedolyn cymwys a ddarparodd 1 ymateb yn cael pwysolyn aelwyd o 2. Er mwyn atal pwysolion allanol uchel, cafodd nifer yr oedolion cymwys ei gapio ar 4. Lluoswyd pwysolion yr aelwyd â'r pwysolion dewis a diffyg ymateb cyfun (W6) i gynhyrchu'r pwysolion cyn graddnodi (W8).

6.2.5 Pwysolion graddnodi (W9)

Ar gyfer cam olaf pwysoli'r cyfweliad, addaswyd W8 i gyfateb i'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf sydd ar gael ar gyfer categorïau oedran-rhyw a rhanbarth Cymru, tra'n rheoli ar gyfer chwarter y dyraniad (25% o gyfanswm y pwysolion fesul chwarter). Cymerwyd amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer preswylwyr 16 oed a hŷn yng Nghymru o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Gwiriwyd pwysolion terfynol y cyfweliadau, a nodwyd tri allanolyn amlwg â phwysolion uchel, ac fe'u tociwyd. Cymharwyd fersiynau amgen o'r pwysolion terfynol i asesu'r effaith ar fias

weddilliol, effaith dylunio a maint sampl effeithiol. Roedd y pwysolion wedi'u tocio yn darparu gostyngiad bychan mewn bias gweddilliol ac effaith dylunio felly cawsant eu dewis fel y pwysolion terfynol.

Dangosir effaith pwysoli ar gywirdeb amcangyfrifon yr arolwg gan y maint sampl effeithiol (NEFF). Mae'r maint sampl effeithiol yn mesur maint sampl syml ar hap (heb ei bwysoli) a fyddai'n cyflawni'r un lefel o fanylder (hynny yw, ystod y gwall safonol sy'n gysylltiedig â phob amcangyfrif) â dyluniad yr arolwg wedi'i bwysoli. Os yw'r maint sampl effeithiol yn agos at faint y sampl a gyflawnwyd, mae hyn yn dangos bod y strategaeth bwysoli yn effeithlon ac nad yw wedi lleihau manylder yn sylweddol. Ar gyfer pwysolion terfynol y cyfweliadau, y maint sampl effeithiol (NEFF) oedd 4,095, gydag effaith dylunio (DEFF) o 1.49 ac effeithlonrwydd o 67%.

Tabl 6. Maint Sampl Effeithiol yn ôl Rhanbarthau Cymru[9]

	Maint sampl a gyflawnwyd	**Maint sampl effeithiol (NEFF)**
De-ddwyrain Cymru	2,827	1,916
De-orllewin Cymru	1,272	860
Canolbarth Cymru	669	480
Gogledd Cymru	1,349	936

6.3 Pwysolion dyddiadur

Cynhyrchwyd pwysolion dyddiadur ar gyfer pob taith a adroddwyd yng Nghymru ac unrhyw ddiwrnodau yn y dyddiadur lle na chofnodwyd unrhyw deithiau yng Nghymru. O ran ymatebwyr a gafodd bwysolion cyfweliad ond na wnaethant gwblhau dau ddiwrnod y dyddiadur teithio, ni chawsant bwysolion dyddiadur.

Roedd pwysoli'r dyddiadur yn cynnwys dau gam, sy'n cael eu disgrifio isod.

6.3.1 Addasiad diwrnod yr wythnos (W10)

Gofynnwyd i ymatebwyr roi gwybod am eu teithiau am y ddau ddiwrnod cyn y diwrnod y gwnaethant gwblhau cyfweliad. Gan fod y diwrnod casglu data yn ôl disgresiwn yr ymatebydd, mae diwrnodau dyddiadur yn y sampl ymateb yn cael eu dosbarthu'n anghyson ar draws dyddiau'r wythnos. Gwyddys bod ymddygiad teithio yn amrywio rhwng dyddiau'r wythnos, felly mae angen addasu pwysolion y dyddiadur ar gyfer hyn.

Defnyddiwyd pwysolion y cyfweliadau fel man cychwyn ar gyfer pwysolion y dyddiadur. Mae'r rhain yn cael eu hail-raddio fel bod pob diwrnod o'r wythnos, ar gyfer diwrnod cyntaf y

[9] Mae cyfrifo maint sampl effeithiol yn ôl rhanbarth yn anwybyddu gwahaniaethau mewn pwysolion cyfartalog rhwng rhanbarthau. Mae'r cyfrifiad cyffredinol yn cynnwys y gwahaniaethau hyn fel ffynhonnell ychwanegol o amrywiad pwysolion. Gan fod maint sampl effeithiol yn lleihau wrth i amrywioldeb pwysolion gynyddu, mae maint sampl effeithiol cyffredinol fel arfer yn llai na chyfanswm maint samplau effeithiol ar lefel rhanbarthau.

dyddiadur, yn cael 1/7 (14.3%) o gyfanswm y pwysolion. Cynhyrchodd hyn bwysolyn dros dro ar gyfer y dyddiadur (W10).

6.3.2 Addasiad ar gyfer gostyngiad yn nheithiau Diwrnod 2 (W11)

Yn nata'r dyddiadur, gellir gweld patrwm o lai o deithiau'n cael eu hadrodd ar yr ail ddiwrnod yn y dyddiadur. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â mwy o anhawster o ran cofio'r union ymddygiad ddau ddiwrnod cyn hynny, o'i gymharu â'r diwrnod cyn casglu data. I reoli ar gyfer y gostyngiad hwn yn nifer y teithiau a adroddwyd, cafodd data o'r ail ddyddiadur bwysoliad uwch.

I gyfrifo'r ffactor addasu ar gyfer diwrnod dyddiadur 2, cyfrifwyd cyfraddau teithiau ar gyfer diwrnodau 1 a 2 ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos, wedi'u pwysoli yn ôl W10. Roedd y ffactor addasu ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos yn cynnwys cyfradd gyfartalog y teithiau wedi'u pwysoli ar gyfer diwrnod 1 y dyddiadur wedi'i rhannu â chyfradd gyfartalog y teithiau wedi'u pwysoli ar gyfer diwrnod 2 y dyddiadur. Mae'r ffactorau addasu hyn yn cynnwys W11.

Cafodd pwysolion terfynol y dyddiadur (W12) eu creu fel a ganlyn:

- Ar gyfer data diwrnod 1 y dyddiadur, W10.
- Ar gyfer data diwrnod 2 y dyddiadur, W10 * W11.

Gwiriwyd dosbarthiad pwysolion terfynol y dyddiadur ac nid oedd yn cynnwys allanolion. Roedd y pwysolion dyddiadur uchaf yn gysylltiedig ag ymatebwyr a gafodd bwysolion cyfweliad cymharol uchel ac yr oedd eu data'n ymwneud â diwrnod dyddiadur 2, gan adlewyrchu'r defnydd o'r addasiad ar gyfer gostyngiad yn nheithiau diwrnod 2. Ni wnaed unrhyw docio gan y byddai'n effeithio'n bennaf ar achosion a oedd yn cael yr addasiad ar gyfer diwrnod 2 ac felly byddai perygl iddo danseilio'r cywiriad ar gyfer gwahaniaethau mewn adrodd am deithiau rhwng diwrnodau dyddiadur.

Roedd effaith camau pwysoli'r dyddiadur ar effeithlonrwydd pwysoli yn gymedrol. Roedd gan bwysolion terfynol y cyfweliadau effeithlonrwydd o 67%. Fe wnaeth yr addasiad o ran diwrnod yr wythnos leihau'r effeithlonrwydd i 66%, ac roedd ychwanegu'r addasiad ar gyfer gostyngiad yn nheithiau diwrnod 2 wedi arwain at effeithlonrwydd pwysolion terfynol y dyddiadur o 64%.

7. Llyfryddiaeth

Yr Adran Drafnidiaeth. “National Travel Survey 2024: Technical report”. Cyrchwyd Awst 25, 2026. https://www.gov.uk/government/statistics/national-travel-survey-2024-technical-report.

Trafnidiaeth Cymru. “Datblygu'r arolwg ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.” Cyrchwyd Awst 25, 2026. https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru/ymchwil-a-datblygu/datblygur-arolwg.

Trafnidiaeth Cymru. “Profion Peilot Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.” Cyrchwyd Awst 25, 2026. https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru/ymchwil-a-datblygu/profion-peilot.

Trafnidiaeth Cymru. “Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Mesurau Monitro”. Cyrchwyd Awst 25, 2026. https://trc.cymru/prosiectau/monitro-a-gwerthuso/strategaeth-drafnidiaeth-cymru-fframwaith-monitro/mesurau-monitro.

Llywodraeth Cymru. “Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021”. Cyrchwyd Awst 25, 2026. https://www.llyw.cymru/llwybr-newydd-strategaeth-drafnidiaeth-cymru-2021.

Atodiadau

Atodiad A: Llythyr gwahoddiad

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

National Centre for Social Research

<add1>
<add2>
<add3>
<add4>
<add5>
<Postcode>

If you need any help, a large print or Braille letter, contact us free on 0800 652 9296 or WNTS@natcen.ac.uk

Your reference:
P19655 <HHSerial>/<CKL>

Dear Resident,

Your household has been chosen to take part in the **Wales National Travel Survey**.

This is your chance to tell us how you experience and use all forms of transport across Wales, whether you travel by car, cycle, bus, train or any other way. The results will help us to make transport in Wales better for everyone, so it's important that you participate.

To say thank you for taking part, we will send you a **£<VouchType> voucher**.

Taking part is voluntary. You will be asked questions about yourself, how you choose to travel, and your recent journeys.

How to take part

Or Scan code below:

1. Go to the survey on your mobile device or computer: **mysurvey.natcen.ac.uk/WNTS**
2. Enter your access code: Person 1 <Acc1a> <Acc1b> <Acc1c>
   Person 2 <Acc2a> <Acc2b> <Acc2c>
3. Complete the survey and receive a **£<VouchType> voucher** as a thank you

<QRcode>

How long will it take?
The survey will take about 40 minutes. You will then receive a **£<VouchType> voucher**.

Who should take part?
Up to two people aged 16 years or over in your household can take part online. Each person completing the study will receive a voucher.

When should I complete it by?
Please complete the survey online as soon as possible, as the survey will only be available for a limited time.

The survey is easy to complete. Answers are kept confidential and are only used for research purposes.

The National Centre for Social Research (NatCen) is carrying out the survey on behalf of Transport for Wales.

Thank you for your support,

Geoff Ogden
Chief Transport Planning and Development Officer
Transport for Wales

WNTS@natcen.ac.uk 0800 652 9296 natcen.ac.uk/WNTS

P19655_WNTS_ADV

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

National Centre for Social Research

<add1>
<add2>
<add3>
<add4>
<add5>
<Postcode>

Os oes angen cymorth arnoch chi, neu lythyr mewn Braille neu brint mawr, cysylltwch â ni am ddim ar 0800 652 9296 neu ATCC@natcen.ac.uk

Eich cyfeirnod:
P19655 <HHSerial>/<CKL>

Annwyl Breswylydd,

Mae eich cartref chi wedi cael ei ddewis i gymryd rhan yn **Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru**.

Dyma eich cyfle i ddweud wrthym sut brofiad a gewch chi gyda gwasanaethau trafnidiaeth ledled Cymru a sut yr ydych yn eu defnyddio, p'un a ydych yn teithio mewn car, ar feic, bws neu drên, neu mewn unrhyw ffordd arall. Bydd y canlyniadau'n ein helpu ni i wneud trafnidiaeth yng Nghymru'n well i bawb, felly mae'n bwysig eich bod yn cymryd rhan. I ddweud diolch i chi am gymryd rhan, byddwn yn anfon **taleb £**<VouchType> atoch.

Chi sy'n dewis a ydych eisiau cymryd rhan ai peidio. Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi'ch hun, sut rydych yn dewis teithio, a'r teithiau rydych wedi eu gwneud yn ddiweddar.

Sut i gymryd rhan

Neu sganiwch y cod isod:

1. Ewch i'r arolwg ar eich dyfais symudol neu gyfrifiadur: **mysurvey.natcen.ac.uk/WNTS**
2. Rhowch eich cod mynediad: Person 1 <Acc1a> <Acc1b> <Acc1c>
   Person 2 <Acc2a> <Acc2b> <Acc2c>
3. Cwblhewch yr arolwg a byddwch yn derbyn **taleb £**<VouchType> i ddiolch i chi

<QRcode>

Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?
Bydd yr arolwg yn cymryd tua 40 munud. Yna byddwch yn derbyn **taleb £**<VouchType>.

Pwy ddylai gymryd rhan?
Gall hyd at ddau o bobl 16 oed neu'n hŷn yn eich cartref gymryd rhan. Bydd pob unigolyn sy'n cwblhau'r astudiaeth yn derbyn taleb.

Erbyn pryd ddylwn i gwblhau'r arolwg?
Cwblhewch yr arolwg ar-lein cyn gynted ag y gallwch, oherwydd dim ond am amser penodol y bydd ar gael.

Mae'r arolwg yn hawdd ei gwblhau. Rydym yn cadw'r atebion yn gyfrinachol a dim ond at ddibenion ymchwil y cânt eu defnyddio.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) yn gwneud yr arolwg ar ran Trafnidiaeth Cymru.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth,

Geoff Ogden
Prif Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth a Datblygu
Trafnidiaeth Cymru

ATCC@natcen.ac.uk 0800 652 9296 natcen.ac.uk/ATCC

P19655_WNTS_ADV

Atodiad B: Llythyr atgoffa cyntaf

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

National Centre for Social Research

If you need any help, a large print or Braille letter, contact us free on 0800 652 9296 or WNTS@natcen.ac.uk

<add1>
<add2>
<add3>
<add4>
<add5>
<Postcode>

Your reference:
P19655 <HHSerial>/<CKL>

Dear Resident,

We wrote to you recently to invite you to take part in the **Wales National Travel Survey**. If you have already completed this survey, please accept our thanks and ignore this letter.

We want to understand your experiences of all forms of transport in Wales, so we can improve journeys for people like you. We are keen to hear from people who travel by car, cycle, bus, train and any other mode. This is an opportunity for you to have your voice heard.

Taking part is important, even if you don't travel often. You can complete the survey online on any device, and you can return to any point if needed. Taking part is voluntary. You will be asked a range of questions about yourself, how you choose to travel, and your recent journeys.

How to take part

Or Scan code below:

1 Go to the survey on your mobile device or computer: **mysurvey.natcen.ac.uk/WNTS**

2 Enter your access code: Person 1 <Acc1a> <Acc1b> <Acc1c>
Person 2 <Acc2a> <Acc2b> <Acc2c>

<QRcode>

3 Complete the survey and receive a £<VouchType> **voucher** as a thank you

How long will it take?
The survey will take about 40 minutes. You will then receive a £<VouchType> **voucher**.

Who should take part?
Up to two people aged 16 years or over in your household can take part online. Each person completing the study will receive a voucher.

When should I complete it by?
Please complete the survey online as soon as possible, as the survey will only be available for a limited time.

If you do not wish to take part online, you can request a telephone interview by calling **0800 652 9296**. Answers are kept confidential and are only used for research purposes.

The National Centre for Social Research (NatCen) is carrying out the survey on behalf of Transport for Wales.

Thank you for your support,

Geoff Ogden
Chief Transport Planning and Development Officer
Transport for Wales

WNTS@natcen.ac.uk 0800 652 9296 natcen.ac.uk/WNTS

P19655_WNTS_R1

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

National Centre for Social Research

Os oes angen cymorth arnoch chi, neu lythyr mewn Braille neu brint mawr, cysylltwch â ni am ddim ar 0800 652 9296 neu ATCC@natcen.ac.uk

<add1>
<add2>
<add3>
<add4>
<add5>
<Postcode>

Eich cyfeirnod:
P19655 <HHSerial>/<CKL>

Annwyl Breswylydd,

Rydym wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar i'ch gwahodd i gymryd rhan yn **Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru**. Os ydych wedi cwblhau'r arolwg hwn yn barod, hoffem ddiolch i chi ac anwybyddwch y llythyr hwn.

Rydym eisiau deall eich profiadau o bob math o drafnidiaeth yng Nghymru, er mwyn i ni allu gwella teithiau i bobl fel chi. Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n teithio mewn car, ar feic, bws neu drên ac unrhyw ddull arall. Mae hwn yn gyfle i chi gael clust i'ch llais. Mae'n bwysig cymryd rhan, hyd yn oed os nad ydych yn teithio'n aml. Gallwch gwblhau'r arolwg ar-lein ar unrhyw ddyfais, a gallwch fynd yn ôl at unrhyw bwynt os oes angen.

Chi sy'n dewis a ydych eisiau cymryd rhan ai peidio. Byddwn yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau i chi amdanoch chi'ch hun, sut rydych yn dewis teithio, a'r teithiau rydych wedi eu gwneud yn ddiweddar.

Sut i gymryd rhan

Neu sganiwch y cod isod:

1. Ewch i'r arolwg ar eich dyfais symudol neu gyfrifiadur: **mysurvey.natcen.ac.uk/WNTS**
2. Rhowch eich cod mynediad: Person 1 <Acc1a> <Acc1b> <Acc1c>
   Person 2 <Acc2a> <Acc2b> <Acc2c>
3. Cwblhewch yr arolwg a byddwch yn derbyn **taleb £**<VouchType> i ddiolch i chi

<QRcode>

Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?
Bydd yr arolwg yn cymryd tua 40 munud. Yna byddwch yn derbyn **taleb £**<VouchType>.

Pwy ddylai gymryd rhan?
Gall hyd at ddau o bobl 16 oed neu'n hŷn yn eich cartref gymryd rhan. Bydd pob unigolyn sy'n cwblhau'r astudiaeth yn derbyn taleb.

Erbyn pryd ddylwn i gwblhau'r arolwg?
Cwblhewch yr arolwg ar-lein cyn gynted ag y gallwch, oherwydd dim ond am amser penodol y bydd ar gael.

Os nad ydych eisiau cymryd rhan ar-lein, gallwch ofyn am gyfweliad dros y ffôn drwy ffonio **0800 652 9296**. Rydym yn cadw'r atebion yn gyfrinachol a dim ond at ddibenion ymchwil y cânt eu defnyddio.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) yn gweinyddu'r astudiaeth ar ran Trafnidiaeth Cymru.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth,

Geoff Ogden
Prif Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth a Datblygu
Trafnidiaeth Cymru

ATCC@natcen.ac.uk 0800 652 9296 natcen.ac.uk/ATCC

P19655_WNTS_R1

Atodiad C: Ail lythyr atgoffa

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

National Centre for Social Research

If you need any help, a large print or Braille letter, contact us free on 0800 652 9296 or WNTS@natcen.ac.uk

<add1>
<add2>
<add3>
<add4>
<add5>
<Postcode>

Your reference:
P19655 <HHSerial>/<CKL>

Dear Resident,

Recently, we invited you to take part in the **Wales National Travel Survey**. We know that some people are not able or would prefer not to take part online, so an interviewer from our survey partner the National Centre for Social Research (NatCen) will visit your home to offer you the chance to participate in a face-to-face interview instead. The interviewer will show you their NatCen Identification badge on arrival.

